COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Cyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr elusen (Cyfansoddiad enghreifftiol cyswllt)

Tachwedd 2023

**Sefydliad Corfforedig Elusennol: Cyfansoddiad enghreifftiol ar gyfer SCE gydag aelodaeth â phleidlais (yn ychwanegol i'w ymddiriedolwyr elusen)**

**(Cyfansoddiad enghreifftiol 'cyswllt')**

Mae'r ddogfen hon yn gyfansoddiad enghreifftiol y Comisiwn Elusennau ar gyfer Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE).

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'n fyr:

- Beth yw SCE
- Sut i benderfynu ai SCE yw'r ffurf gywir i'ch elusen chi
- Sut i ddewis y cyfansoddiad enghreifftiol cywir
- Sut i gwblhau'r cyfansoddiad enghreifftiol a chofrestru fel elusen
- Ble i gael rhagor o wybodaeth a chyngor

Yn atodiad 2, mae nodiadau sy'n esbonio pwyntiau allweddol am bob cymal yn y cyfansoddiad enghreifftiol i'ch helpu i benderfynu sut i'w gwblhau.

Mae canllawiau mwy manwl gennym hefyd ar SCEau ar ein gwefan.

**Beth yw Sefydliad Corfforedig Elusennol?**

Mae'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) yn ffurf gyfreithiolar gyfer elusen. Mae'n ffurf gorfforedig o elusen sydd heb fod yn gwmni cyfyngedig nac yn amodol ar reoleiddio cwmni.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn creu'r fframwaith cyfreithiol sylfaenol ar gyfer y SCE. Mae'r fframwaith hwn yn cael ei gwblhau gan reoliadau:

- Rheoliadau (Cyffredinol) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012 ('Rheoliadau Cyffredinol'); a'r
- Rheoliadau (Ansolfedd a Diddymu) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012 ('Rheoliadau Diddymu').

**Ydy'r SCE yn strwythur sy'n addas i'n helusen ni?**

Dewis y strwythur cyfreithiol a'r ddogfen lywodraethol iawn yw un o'r penderfyniadau cyntaf a phwysicaf y mae'n rhaid i sylfaenwyr elusen eu gwneud. Bydd yn effeithio ar:

- ba mor hawdd y bydd i sefydlu a rhedeg yr elusen
- pa mor hawdd y bydd i wneud newidiadau yn y dyfodol
- all yr elusen gael aelodaeth â phleidlais
- a all yr elusen ei hun berchen ar eiddo, cyflogi staff neu lunio contractau, nau a fydd rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud hyn eu hunain.

Mae pedair prif ffurf gyfreithiol ar gael i elusennau. Rydym yn cynhyrchu dogfennau llywodraethol enghreifftiol ar gyfer pob un o'r ffurfiau hyn:

- Ymddiriedolaeth (dogfen lywodraethol: gweithred ymddiriedolaeth; gallai gael ei chreu drwy ewyllys hefyd);
- Cymdeithas anghorfforedig (dogfen lywodraethol: cyfansoddiad neu reolau);
- Cwmni cyfyngedig drwy warant (dogfen lywodraethol: memorandwm ac erthyglau cymdeithasu ar gyfer cwmni a ffurfiwyd cyn Medi 2009; erthyglau cymdeithasu ar gyfer cwmni a ffurfiwyd ers hynny);
- SCE (dogfen lywodraethol: cyfansoddi).

Gall ffurf anghorfforedig, SCE neu gwmni cyfyngedig drwy warant fod yn addas ar gyfer elusen a fydd yn:

- berchen ar dir yn ei henw ei hun
- rheoli cronfeydd neu asedau sylweddol
- llunio contractau, er enghraifft drwy gyflogi staff, neu
- cyflawni gweithgareddau elusennol sy'n cynnwys risgiau ariannol

Rhai pwyntiau i'w nodi am SCEau:

- Mae SCE yn gorff corfforaethol (fel cwmni) sy'n gallu berchen ar eiddo, cyflogi staff a llunio contractau eraill yn ei enw ei hun (yn hytrach nag yn enwau'r ymddiriedolwyr).
- Mae gan aelodau cwmni cyfyngedig drwy warant atebolrwydd cyfyngedig am ei ddyledion os yw'n dirwyn i ben (mae'n rhaid iddynt dalu swm penodol yn unig). Gall aelodau'r SCE naill ai gael dim atebolrwydd o gwbl neu (fel cwmni) atebolrwydd cyfyngedig am ei ddyledion.
- Oherwydd bod diogelwch cyfreithiol ychwanegol ganddynt, mae'n rhaid i aelodau corff corfforaethol (cwmni neu SCE) gydymffurfio â rheoliadau ychwanegol.
- Yn wahanol i gwmnïau, nid oes rhaid i SCEau gofrestru gydaThŷ'r Cwmnïau.
- Yn wahanol i gwmnïau, ni chaiff SCEau ddirwy am gamgymeriadau gweinyddol megis ffeilio cyfrifon yn hwyr, ond mae torri rhai Rheoliadau SCE yn dramgwyddau cyfreithiol.
- Mae'n rhaid i bob SCE gofrestru gyda'r Comisiwn, waeth beth fo'i incwm. Mae hyn yn golygu na all elusen a esgusodir fod yn SCE, a gall SCE fod yn anaddas ar gyfer mathau eraill o elusen nad oes rhaid iddynt gofrestru. (Gweler ein canllaw ar y mathau o elusen nad oes rhaid iddynt gofrestru.)
- Mae'n rhaid i SCEau gynhyrchu cyfrifon o dan y gyfraith elusennau, nid y gyfraith cwmnïau. Mae hyn yn caniatáu i SCEau llai (incwm o dan £250,000) gynhyrchu cyfrifon derbyniadau a thaliadau symlach.
- I symleiddio'r fframwaith SCE, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd i SCEau gyhoeddi dyledebau, neu ar gyfer cofrestr arwystlon (morgeisiau ac ati) dros eiddo SCE.

I gael rhagor o wybodaeth am ffurfiau cyfreithiol eraill, gweler ein canllaw ar ddewis dogfen lywodraethol eich elusen.

**Pam bod dau gyfansoddiad enghreifftiol gwahanol ar gyfer SCE?**

Fel cwmnïau (sy'n rhaid cael aelodau a chyfarwyddwyr cwmni), mae'n rhaid i bob SCE gael aelodau ac ymddiriedolwyr elusen. Efallai y bydd rhai SCEau am gael ymddiriedolwyr elusen yn unig fel aelodau; bydd eraill am gael aelodaeth ehangach sy'n agored i bobl eraill.

Rydym wedi cynhyrchu dau gyfansoddiad enghreifftiol ar gyfer SCEau:

- mae'r cyfansoddiad enghreifftiol '**sylfaen**' ar gyfer elusennau a'u **hunig** aelodau â phleidlais yw'r ymddiriedolwyr elusen;

- mae'r cyfansoddiad enghreifftiol '**cyswllt**' (yr un yma) ar gyfer elusennau fydd ag aelodaeth ehangach, gan gynnwys aelodau â phleidlais heblaw'r ymddiriedolwyr elusen.

Yn ymarferol bydd SCE sy'n defnyddio'r cyfansoddiad enghreifftiol 'sylfaen' yn debyg i ymddiriedolaeth elusennol gorfforedig, sy'n cael ei weinyddu gan grŵp bach o bobl (yr ymddiriedolwyr elusen) a fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau pwysig. Gall ymddiriedolwyr elusen gael eu penodi am gyfnod amhenodol ac mae'n debyg y byddant yn penodi ymddiriedolwyr elusen newydd.

Bydd gan SCE sy'n defnyddio'r cyfansoddiad 'cyswllt' aelodaeth ehangach sydd â hawliau pleidleisio ac sy'n rhaid gwneud penderfyniadau arbennig (megis diwygio'r cyfansoddiad), bydd yn penodi rhai neu'r holl ymddiriedolwyr elusen fel arfer (a fydd yn gwasanaethu am gyfnodau penodol), a gall ymwneud â gwaith y SCE.

Mae dwy ffurf wahanol o SCE. Gallai'r SCE sydd â chyfansoddiad enghreifftiol 'sylfaen' newid i'r cyfansoddiad enghreifftiol 'cyswllt' pe byddai am gael aelodaeth â phleidlais ehangach. (Gallai hyn ddigwydd i'r gwrthwyneb hefyd, ond byddai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr yn ildio eu haelodaeth.) Byddai angen i ni gymeradwyo rhai o'r newidiadau

## Defnyddio cyfansoddiadau SCE enghreifftiol y Comisiwn

Mae'n **rhaid** i gyfansoddiad SCE fod yn y ffurf a bennwyd gan reoliadau'r Comisiwn (neu mor agos i'r ffurf honno ag y caniateir o dan yr amgylchiadau). Mae'r rheoliadau hyn yn pennu y dylai'r cyfansoddiad fod ar ffurf un o'n cyfansoddiadau enghreifftiol. Mae hyn yn dal i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd, fel yr esbonnir yn y nodiadau canllaw ar y cyfansoddiad enghreifftiol hwn. Mae'n **rhaid** i'r cyfansoddiad fod yn Saesneg os yw prif swyddfa'r SCE yn Lloegr, ond gall fod yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw'r brif swyddfa yng Nghym

Mae'n **rhaid** i gyfansoddiad SCE gynnwys rhai darpariaethau i gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) a'r Rheoliadau Cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2011 a'r Rheoliadau Cyffredinol yn rhagnodi'r union eiriad.

Mae darpariaethau eraill y mae'n **rhaid** eu cynnwys **os** ydynt yn gymwys i SCE arbennig. Os nad ydynt yn hollol gymwys, mae'n **rhaid** i'r cyfansoddiad esbonio i ba raddau neu sut y maent yn gymwys.

Rydym wedi cynnwys darpariaethau eraill yn y cyfansoddiad enghreifftiol hwn oherwydd:

- maent yn adlewyrchu'r arfer da rydym yn ei argymell
- maent yn atgoffa'r ymddiriedolwyr am ofyniad cyfreithiol
- ni fyddai'r cyfansoddiad yn gweithio'n iawn hebddynt, neu
- mae elusennau wedi dweud y byddai'n ddewis defnyddiol a byddai'n ddefnyddiol i gael geiriad safonol

Bydd defnyddio un o gyfansoddiadau enghreifftiol y Comisiwn yn helpu i sicrhau eich bod chi'n cynnwys yr holl ddarpariaethau cyfansoddiadol y bydd eu hangen ar eich SCE er mwyn:

- bodloni gofynion y gyfraith
- cydymffurfio ag arfer da, a
- bod yn ymarferol ac yn hylaw

Bydd y nodiadau canllaw hyn yn eich annog i feddwl a oes angen i chi gynnwys pwerau arbennig.

**Sut ydym ni'n ffurfio SCE?**

i) Elusennau newydd

I sefydlu a chofrestru SCE newydd, dilynwch y drefn a nodir isod o dan Camau Nesaf.

ii) Ymddiriedolaethau elusennol a chymdeithasau anghorfforedig sy'n bod

Gall elusen anghorfforedig sy'n bod newid i fod yn SCE dim ond trwy:

- sefydlu a chofrestru SCE newydd (yn yr un ffordd ag ar gyfer elusen newydd), yna

- trosglwyddo ei eiddo a’i weithrediadau i’r SCE.

Dylech wirio a oes modd i’ch elusen drosglwyddo ei eiddo fel hyn, neu a oes angen awdurdodiad y Comisiwn arnoch. Pan fydd y trosglwyddo wedi’i gwblhau, fel rheol gall yr elusen wreiddiol gael ei dirwyn i ben a’i dileu o’r gofrestr, ond gall trefniadau gwahanol fod yn gymwys i elusennau sydd â gwaddol parhaol (gweler isod).

iii) Elusennau sy’n bod sydd â gwaddol parhaol

Yn syml, mae gwaddol parhaol yn eiddo y mae'n rhaid i elusen ei gadw yn hytrach na'i wario. Mae dau brif fath o waddol parhaol:

- Arian neu asedau eraill a roddir i'ch elusen i'w buddsoddi. Gellir gwario incwm y buddsoddiad yn unig.

- Eiddo a roddwyd i'ch elusen sy'n gorfod cael ei ddefnyddio at ddiben penodol yn unig. Er enghraifft, tir neu adeiladau a roddwyd i'w defnyddio fel ysgol neu faes hamdden.

Yn aml iawn, nid oes unrhyw  bŵer gan yr elusennau hyn i ddirwyn i ben neu drosglwyddo eu gwaddol parhaol.

Ni all SCEau ddal gwaddol parhaol fel rhan o’u heiddo (corfforedig) eu hunain.

Mae’r Rheoliadau Cyffredinol yn gwneud darpariaeth arbennig i alluogi elusennau sydd â gwaddol parhaol i drosglwyddo i SCE. Mae’n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd â gwaddol parhaol:

- sefydlu a chofrestru SCE newydd gyda’r Comisiwn, yna

- gwneud datganiad breinio o dan adran 310 o Ddeddf 2011 (fel y’i diwygiwyd gan y Rheoliadau Cyffredinol), gan drosglwyddo holl eiddo’r elusen wreiddiol i’r SCE newydd.

Bydd y datganiad breinio yn:

- trosglwyddo eiddo gwariadwy i’r SCE fel rhan o’i eiddo corfforedig

- breinio teitl cyfreithiol i’r gwaddol parhaol yn y SCE, i’w ddal ar ei ymddiriedolaethau gwreiddiol

- penodi'r SCE fel ymddiriedolwr ar gyfer ymddiriedolaeth gwaddol parhaol a rhoi pwerau corfforaeth ymddiriedolaeth iddo ar gyfer yr ymddiriedolaeth honno

- mae'n golygu bod y SCE a'r ymddiriedolaeth gwaddol parhaol yn cael eu trin fel un elusen at ddibenion cofrestru a chyfrifyddu (ni fydd rhaid iddynt gofrestru ar wahân neu gynhyrchu cyfrifon ar wahân).

Os yw elusennau'n defnyddio datganiad breinio i weithredu'r uno, mae'n rhaid iddynt ei gofnodi yn y Gofrestr Uno Elusennau. Mae datganiadau breinio yn ddogfennau cyfreithiol, felly efallai y bydd angen cyngor gan gyfreithiwr neu weithiwr proffesiynol arall arnoch. Darllenwch ein canllaw am ragor o wybodaeth.

I gael rhagor o wybodaeth gweler ein canllaw cyffredinol ar SCEau.

iv) Cwmnïau elusennol a chymdeithasau cofrestredig sy'n bodoli eisoes

Mae hefyd yn bosibl i gwmni elusennol neu gymdeithas gofrestredig sy'n bod yn trosi'n uniongyrchol yn SCE; mae gweithdrefnau penodol ar gyfer hyn.

## Pa ganllawiau ddylem ni eu hystyried cyn dechrau?

- Mae canllaw cynhwysfawr ar sefydlu neu chau elusen i'w weld ar ein gwefan.

- Mae **canllawiau** mwy manwl gennym **ar SCEau** hefyd.

- Mae'r Ymddiriedolwr Hanfodol yn amlinellu'r pethau sylfaenol y mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen ei wybod.

## Y camau nesaf

1. Cwblhau'r cyfansoddiad

Pan fyddwch wedi penderfynu gwneud cais i gofrestru SCE ac rydych wedi dewis y cyfansoddiad enghreifftiol cywir, darllenwch y cyfansoddiad a'r canllawiau cysylltiedig yn ofalus. Yn y nodiadau canllaw dywedwn fod '**rhaid**' cynnwys rhywbeth yn y cyfansoddiad os yw'n ofyniad cyfreithiol yn Neddf 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol neu Diddymu. Dywedwn y '**dylai**' rhywbeth gael ei gynnwys os ydym yn credu ei fod yn arfer da lleiaf. 'Argymhellwn' eich bod yn cynnwys darpariaethau eraill i helpu i sicrhau gweithrediad didrafferth y SCE yn y dyfodol.

Mae nodiadau canllaw ar bob cymal sy'n esbonio beth yw ei bwrpas, a oes **rhaid** i chi neu a **ddylech** chi gynnwys (y cyfan neu ran) ohono, ac a **all** neu a **ddylai** gael ei newid i weddu i'r amgylchiadau. Hyd yn oed pan fydd cymalau wedi'u cwblhau'n ddewisol, cynghorwn eich bod yn dilyn y darpariaethau enghreifftiol neu'r dewisiadau eraill a awgrymir oni bai bod angen arbennig, er lles eich elusen, i wneud fel arall.

Mae rhai cymalau yn cynnwys dewisiadau i chi a llefydd gwag y bydd rhaid i chi eu llenwi.

Os ydych am ychwanegu unrhyw ddarpariaethau arbennig neu gymhleth rydych wedi'u drafftio eich hun, efallai y bydd angen cyngor arnoch gan gyfreithiwr neu gynghorydd arall. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser arnom i ystyried unrhyw newidiadau arbenigol. Gwnewch unrhyw newidiadau a wnewch yn glir gan esbonio pam bod angen eu gwneud. Bydd hyn yn ein helpu ni i ystyried eich cais mor gyflym â phosibl. Ni allwn warantu y byddwn yn derbyn pob sefydliad sy'n defnyddio un o'n cyfansoddiadau enghreifftiol fel sefydliad elusennol. Mae'n rhaid i ni ystyried pob cais ar wahân.

Pan fyddwch wedi gorffen, gwiriwch eich bod wedi:

- llenwi'r bylchau gwag,
- dileu unrhyw gymalau nad oes eu hangen arnoch; a
- rhifo'r cymalau sy'n weddill (a'r is-gymalau) mewn trefn (gan gynnwys croesgyfeiriadau).

2. Gwneud cais i gofrestru

I gofrestru elusen newydd, rhaid i chi wneud cais ar-lein trwy Wefan y Comisiwn Elusennau.

3. Faint fydd hi'n cymryd?

Fel rheol gallwn wneud penderfyniad o fewn 40 diwrnod gwaith os yw'r sefydliad yn:

- gallu defnyddio ein geiriad enghreifftiol ar gyfer ei amcanion ([Amcanion elusennol enghreifftiol] ar ein gwefan);
- dangos bod neu y bydd ei weithgareddau yn cyd-fynd â'r amcanion;

- dangos bod unrhyw fudd preifat yn atodol yn unig ac wedi'i reoli'n briodol; ac

- defnyddio ein dogfen lywodraethol enghreifftiol.

Bydd rhaid i geisiadau eraill gael eu hystyried yn fwy manwl ac felly byddant yn cymryd yn hwy.

**Cyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr elusen**

**(Cyfansoddiad Enghreifftiol ‘Cyswllt’)**

Dyddiad y cyfansoddiad (diwygiwyd diwethaf):

...........................................................................................................

## 1. Enw

Enw’r Sefydliad Corfforedig Elusennol (“y SCE”) yw

...........................................................................................................

## 2. Lleoliad cenedlaethol y brif swyddfa

Mae’n rhaid i brif swyddfa’r SCE fod yng Nghymru neu Loegr. Mae prif swyddfa’r SCE [yng Nghymru][yn Lloegr].

## 3. Amcan[ion]

Amcan[ion] y SCE yw

...........................................................................................................

...........................................................................................................

...........................................................................................................

...........................................................................................................

Ni fydd unrhyw beth yn y cyfansoddiad hwn yn awdurdodi defnyddio eiddo’r SCE at ddibenion sydd heb fod yn elusennol yn unol ag [adran 7 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005] ac [adran 2 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008].

## 4. Pwerau

Mae pŵer gan y SCE i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hyrwyddo ei hamcan[ion] neu sy’n ffafriol neu’n atodol i wneud hynny. Yn arbennig, mae pwerau’r SCE yn cynnwys pŵer i:

(1) benthyca arian ac arwystlo'r cyfan neu unrhyw ran o'i eiddo fel gwarant ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd. Mae'n rhaid i'r SCE gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 124 a 125 o Ddeddf Elusennau 2011, os yw am forgeisio tir;

(2) prynu, cymryd ar brydles neu yn gyfnewid, hurio neu gaffael fel arall unrhyw eiddo a chynnal a chyfarparu'r eiddo i'w ddefnyddio;

(3) gwerthu, prydlesu neu waredu fel arall y cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r SCE yn berchen arno. Wrth arfer y pŵer hwn, mae'n rhaid i'r SCE gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 117 a 119-123 o Ddeddf Elusennau 2011;

(4) cyflogi a thalu staff fel y bo angen am wneud gwaith y SCE. Gall y SCE gyflogi neu dalu ymddiriedolwr elusen dim ond i'r graddau y caniateir iddo wneud hynny gan gymal 6 (Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig) ac ar yr amod ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r cymalau hynny;

(5) adneuo neu fuddsoddi cronfeydd, cyflogi rheolwr cronfeydd proffesiynol, a threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall y SCE gael eu cadw yn enw enwebai; yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau ag y caniateir i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth wneud hynny gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.

**5. Defnyddio incwm ac eiddo**

(1) Mae'n rhaid i incwm ac eiddo'r SCE gael eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion yn unig.

(a) Mae hawl gan ymddiriedolwr elusen i gael ei ad-dalu o eiddo'r SCE neu gall dalu o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol sydd wedi codi'n briodol wrth iddo neu iddi weithredu ar ran y SCE.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr a brynwyd ar draul y SCE yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011.

Opsiwn 1

(2) [Ni ellir talu neu drosglwyddo dim o incwm nac eiddo'r SCE yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ffurf difidend, bonws neu fel arall ar

ffurf elw i unrhyw aelod o'r SCE neu berson cysylltiedig. Nid yw hyn yn atal aelod neu unigolyn cysylltiedig nad yw hefyd yn ymddiriedolwr elusen rhag derbyn:

(a) budd gan y SCE fel buddiolwr y SCE;

(b) tâl rhesymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r SCE.

(c) Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig rhag cael budd neu daliad wedi'i awdurdodi gan Gymal 6.]

Opsiwn 2

2) [Ni ellir talu na throsglwyddo'r incwm na'r eiddo y SCE yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy ddifiden, bonws neu fel arall trwy elw i unrhyw aelod o'r SCE neu berson cysylltiedig. Nid yw hyn yn atal aelod neu berson cysylltiedig nad yw hefyd yn ymddiriedolwr elusen rhag:

(a) cael budd gan y SCE fel buddiolwr i'r SCE;

(b) prynu neu dderbyn nwyddau a/neu wasanaethau gan y SCE ar delerau rhesymol a phriodol;

(c) gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fuddiant mewn tir i'r SCE ar delerau rhesymol a phriodol;

(ch) cael eich cyflogi gan, neu dderbyn tâl gan y SCE ar delerau rhesymol a phriodol;

(d) cael llog ar arian a fenthycwyd i'r SCE ar gyfradd resymol a phriodol y mae'n rhaid iddo fod yn ddim mwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol);

(dd) sy'n cael rhent ar gyfer mangre a osodir gan yr aelod neu'r person cysylltiedig â'r SCE. Rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y les fod yn rhesymol ac yn briodol; neu

(e) cymryd rhan yn y gweithgareddau masnachu a chodi arian arferol ar yr un telerau ag aelodau o'r cyhoedd.

(f) Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn atal ymddiriedolwr elusen neu berson gysylltiedig rhag dderbyn unrhyw fudd-dal neu daliad sydd wedi'i awdurdodi gan Gymal 6.]

**6. Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig**

(1) **Darpariaethau cyffredinol**

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig:

(a) prynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan y SCE ar delerau mwy ffafriol na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;

(b) gwerthu nwyddau, gwasanaethau, neu unrhyw fudd mewn tir i'r SCE;

(c) cael ei gyflogi gan y SCE, neu dderbyn unrhyw dâl gan y SCE;

(d) cael unrhyw fudd ariannol arall gan y SCE;

oni bai bod y taliad neu'r budd wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu gan y Comisiwn Elusennau ("y Comisiwn"). Yn y cymal hwn, ystyr "budd ariannol" yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

(2) **Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig**

(a) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd gan y SCE fel buddiolwr y SCE ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cael budd yn y modd hwn.

(b) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig lunio contract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a/neu nwyddau i'r SCE lle y caniateir hynny yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 185 i 188 o Ddeddf Elusennau 2011.

(c) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gael llog ar arian a fenthycwyd i'r SCE ar gyfradd resymol a phriodol ond ni all fod yn fwy na chyfradd llog Banc Lloegr (hefyd yn cael ei alw y gyfradd sylfaenol).

(ch) Gall yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig gael rhent am

adeiladau a osodir gan yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig â'r SCE. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen dan sylw fod yn absennol o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

(d) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu a gweithgareddau codi arian arferol y SCE ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

(3) Yn ngymalau 5 a 6:

(a) mae'r "SCE" yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r SCE yn:

(i) dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu

(ii) rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau; neu

(iii) cael hawl i benodi un neu ragor o'r cyfarwyddwyr i fwrdd y cwmni;

(b) mae "unigolyn cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad a nodwyd yng nghymal [30] (Dehongli).

## 7. Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch

Mae'n rhaid i ymddiriedolwr elusen:

(1) datgan natur a graddfa unrhyw fudd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefniadau arfaethedig â'r SCE neu mewn unrhyw drafodiad neu drefniadau a luniwyd gan y SCE sydd heb eu datgan cyn hynny; a

(2) bod yn absennol o unrhyw drafodaethau'r ymddiriedolwyr elusen lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro buddiannau'n codi rhwng ei ddyletswydd i weithredu er lles y SCE yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol).

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n absennol o unrhyw drafodaethau yn unol â'r cymal hwn bleidleisio neu gael ei gyfrif fel rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen ar y mater.

8. **Atebolrwydd aelodau i gyfrannu at asedau'r SCE os caiff ei ddirwyn i ben**

Dewis 1

Os yw'r SCE yn cael ei ddirwyn i ben, nid oes unrhyw atebolrwydd gan aelodau'r SCE i gyfrannu at ei asedau a dim cyfrifoldeb personol am dalu ei ddyledion a bodloni ei rwymedigaethau.

Dewis 2

(1) Os yw'r SCE yn cael ei ddirwyn i ben, mae pob aelod o'r SCE yn atebol i gyfrannu at asedau'r SCE y fath swm (ond heb fod yn fwy na £[...]) a allai fod yn ofynnol i dalu dyledion a bodloni rhwymedigaethau'r SCE y contractiwyd ar eu cyfer cyn bod yr unigolyn neu'r sefydliad hwnnw yn peidio â bod yn aelod, am dalu costau, taliadau a threuliau dirwyn i ben, ac am addasu hawliau'r aelodau sy'n cyfrannu ymysg ei gilydd.

(2) Yn is-gymal (1) o'r cymal hwn mae "aelod" yn cynnwys unrhyw unigolyn neu sefydliad oedd yn aelod o'r SCE o fewn 12 mis cyn cychwyn dirwyn i ben.

(3) Ond yn amodol ar hynny, nid oes unrhyw atebolrwydd gan aelodau'r SCE i gyfrannu at ei asedau os yw'n cael ei ddirwyn i ben, ac felly nid oes unrhyw gyfrifoldeb personol ganddynt am dalu ei ddyledion a bodloni ei rwymedigaethau y tu hwnt i'r swm y maent yn atebol i'w gyfrannu.

9. **Aelodaeth o'r SCE**

(1) **Derbyn aelodau newydd**

(a) **Cymhwyster**

Mae aelodaeth o'r SCE yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn hyrwyddo ei ddibenion a, thrwy wneud cais i fod yn aelod, wedi dangos ei fod yn cytuno i fod yn aelod ac wedi derbyn dyletswydd aelodau a amlinellir yn is-gymal (3) o'r cymal hwn.

Gall aelod fod yn unigolyn, yn gorff corfforaethol, neu yn [unigolyn neu gorff corfforaethol sy'n cynrychioli] sefydliad sydd heb fod yn gorfforedig.

(b) **Y drefn dderbyn**

Gall yr ymddiriedolwyr elusen:

(i) mynnu bod ceisiadau am aelodaeth yn cael eu gwneud mewn unrhyw ffordd resymol a benderfynir ganddynt;

(ii) [byddant, os ydynt yn cymeradwyo cais am aelodaeth, yn hysbysu'r ymgeisydd am eu penderfyniad o fewn [21 diwrnod]:]

(iii) gallant wrthod cais am aelodaeth os ydynt yn credu ei fod er lles y SCE iddynt wneud hynny;

(iv) byddant, os ydynt yn penderfynu gwrthod cais am aelodaeth, yn rhoi eu rhesymau i'r ymgeisydd dros wneud hynny, o fewn [21 diwrnod] o wneud y penderfyniad, gan roi cyfle i'r ymgeisydd apelio yn erbyn gwrthod y cais; a

(v) byddant yn rhoi ystyriaeth deg i unrhyw apêl o'r fath, a byddant yn hysbysu'r ymgeisydd am eu penderfyniad, ond bydd unrhyw benderfyniad i gadarnhau bod y cais am aelodaeth yn cael ei wrthod yn derfynol.

(2) **Trosglwyddo aelodaeth**

Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r SCE i unrhyw un arall [ac eithrio yn achos unigolyn neu gorff corfforaethol sy'n cynrychioli sefydliad sydd heb ei gorffori, y gall ei aelodaeth gael ei drosglwyddo gan y sefydliad anghorfforedig i gynrychiolydd newydd. Nid yw trosglwyddo aelodaeth fel hyn yn weithredol hyd nes bod y SCE wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r trosglwydd].

(3) **Dyletswydd aelodau**

Dyletswydd pob aelod o'r SCE yw arfer ei bwerau fel aelod o'r SCE yn y ffordd y mae'n penderfynu mewn ewyllys da y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE.

(4) **Terfynu aelodaeth**

(a) Daw aelodaeth o'r SCE i ben:

(i) os yw’r aelod yn marw, neu, yn achos sefydliad (neu gynrychiolydd sefydliad) os yw’r sefydliad hwnnw yn peidio â bodoli; neu

(ii) os yw’r aelod yn anfon hysbysiad ymddiswyddo i’r ymddiriedolwyr elusen; neu

(iii) os yw unrhyw o swm y mae’n rhaid i’r aelod ei dalu i’r SCE heb gael ei dalu yn llawn cyn pen chwe mis o’r dyddiad y mae’n ddyledus;

(iv) os yw’r ymddiriedolwyr elusen yn penderfynu ei fod er lles gorau’r SCE i derfynu aelodaeth yr aelod dan sylw, a phasio cynnig i’r perwyl hwnnw.

(b) Cyn bod yr ymddiriedolwyr elusen yn gwneud unrhyw benderfyniad i derfynu aelodaeth rhywun o’r SCE mae’n rhaid iddynt:

(i) hysbysu’r aelod am y rhesymau pam y cynigir terfynu ei aelodaeth;

(ii) rhoi o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd i’r aelod wneud sylwadau i’r ymddiriedolwyr elusen gan esbonio pam na ddylid terfynu ei aelodaeth;

(iii) yng nghyfarfod yr ymddiriedolwyr elusen gyda chyfansoddiad priodol, ystyried a ddylid terfynu aelodaeth yr aelod neu beidio;

(iv) ystyried yn y cyfarfod hwnnw unrhyw sylwadau y mae’r aelod yn eu gwneud i esbonio pam na ddylid terfynu ei aelodaeth; a

(v) caniatáu i’r aelod, neu gynrychiolydd yr aelod, i wneud y sylwadau hynny yn bersonol yn y cyfarfod hwnnw, os yw’r aelod yn dewis gwneud hynny.

(5) **Ffioedd aelodaeth**

Gall y SCE fynnu bod aelodau yn talu ffioedd aelodaeth rhesymol i’r SCE.

[(6) **Aelodaeth anffurfiol neu aelodaeth gyswllt (heb bleidlais)**

(a) Gall yr ymddiriedolwyr elusen greu aelodaeth gyswllt neu ddosbarthiadau eraill o aelodaeth heb bleidlais, a gallant bennu hawliau a rhwymedigaethau unrhyw aelodau o'r fath (gan gynnwys talu ffioedd aelodaeth), yr amodau ar gyfer derbyn pobl yn aelodau, a therfynu aelodaeth unrhyw ddosbarth o aelodau o'r fath.

(b) Nid yw cyfeiriadau eraill yn y cyfansoddiad hwn at "aelodau" ac "aelodaeth" yn gymwys i aelodau heb bleidlais, ac nid yw aelodau heb bleidlais yn gymwys i fod yn aelodau ar gyfer unrhyw ddiben o dan y Deddfau Elusennau, Rheoliadau Cyffredinol neu Reoliadau Diddymu.]

**10. Penderfyniadau'r aelodau**

**(1) Darpariaethau cyffredinol**

Ac eithrio yn achos y penderfyniadau hynny y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig fel y nodir yn is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall penderfyniadau aelodau'r SCE gael eu gwneud naill ai trwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol fel y darperir yn is-gymal (2) o'r cymal hwn neu drwy gynnig ysgrifenedig fel y darperir yn is-gymal (3) o'r cymal hwn.

**(2) Gwneud penderfyniadau cyffredin drwy bleidlais**

Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, gall unrhyw benderfyniad aelodau'r SCE gael eu gwneud drwy gyfrwng cynnig mewn cyfarfod cyffredinol. Gall cynnig o'r fath gael ei basio gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod [(gan gynnwys pleidleisiau trwy'r post neu'r e-bost, a phleidleisiau drwy ddirprwy)].

**(3) Gwneud penderfyniadau cyffredin drwy gynnig ysgrifenedig heb gyfarfod cyffredinol**

(a) Yn amodol ar is-gymal (4) o'r cymal hwn, bydd cynnig ysgrifenedig wedi'i gytuno gan fwyafrif syml o'r holl aelodau a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio arno pe byddai wedi cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol, yn weithredol, ar yr amod bod:

(i) copi o'r cynnig arfaethedig wedi cael ei anfon at bob un o'r aelodau sy'n gymwys i bleidleisio; a

(ii) mae mwyafrif syml o'r aelodau wedi datgan eu bod yn cytuno â'r cynnig mewn dogfen neu ddogfennau sy'n cael eu derbyn yn y brif swyddfa o fewn y cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau gyda'r dyddiad cylchredeg. Mae'n rhaid i'r ddogfen sy'n datgan cytundeb aelod gael ei dilysu gan ei lofnod (neu yn achos sefydliad sy'n aelod, drwy gyflawni yn ôl ei drefn arferol), gan ddatganiad o'i hunaniaeth sy'n ategu'r ddogfen, neu drwy unrhyw ddull arall fel y pennir gan y SCE.

(b) Gall y cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl copi y mae un neu ragor o'r aelodau wedi datgan eu bod yn cytuno.

(c) Mae cymhwyster i bleidleisio ar y cynnig wedi'i gyfyngu i aelodau sy'n aelodau o'r SCE ar y dyddiad pan gaiff y cynnig ei gylchredeg yn gyntaf yn unol â pharagraff uchod.

(ch) Gall dim llai na 10% o aelodau'r SCE ofyn i'r ymddiriedolwyr elusen wneud cynnig ar gyfer penderfyniad gan yr aelodau.

(d) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen o fewn 21 diwrnod o dderbyn cais o'r fath, gydymffurfio ag ef:

(i) Os nad yw'r cynnig yn wacsaw neu flinderus, ac nid yw'n cynnwys cyhoeddi deunyddiau difenwol;

(ii) Os yw'r cynnig wedi'i ddatgan yn ddigon eglur er mwyn iddo gael ei weithredu os yw'r aelodau yn cytuno;

(iii) Os oes modd gweithredu'r cynnig yn gyfreithiol os cytunir felly.

(dd) Mae is-gymalau (a) i (c) o'r cymal hwn yn gymwys i gynnig a wnaed ar gais yr aelodau.

**(4) Penderfynia dau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig**

[(a) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo ymddiriedolwr gael ei wneud yn unol â chymal [15(2)].]

(b) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiwygio'r cyfansoddiad hwn gael ei wneud yn unol â chymal [28] o'r cyfansoddiad hwn (Diwygio'r Cyfansoddiad).

(c) Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddirwyn i ben neu ddiddymu'r SCE gael ei wneud yn unol â chymal [29] o'r cyfansoddiad hwn (Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol). Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i uno neu drosglwyddo ymrwymiadau'r SCE i un neu ragor o SCEau eraill gael ei wneud yn unol â darpariaethau Deddf Elusennau 2011.

## 11. Cyfarfodydd cyffredinol o'r aelodau

### (1) Mathau o gyfarfod cyffredinol

Mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol (CCB) o aelodau'r SCE. Mae'n rhaid i'r CCB cyntaf gael ei gynnal o fewn 18 mis o gofrestru'r SCE, ac mae'n rhaid i SCEau dilynol gael eu cynnal ar gyfnodau o ddim mwy na 15 mis. Mae'n rhaid i'r CCB gael y datganiad o gyfrifon blynyddol (wedi'i archwilio'n ariannol neu ei archwilio'n annibynnol fel y bo'n gymwys) ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, ac mae'n rhaid ethol ymddiriedolwyr yn ôl y gofyn o dan gymal [13].

Gall cyfarfodydd cyffredinol eraill o aelodau'r SCE gael eu cynnal unrhyw bryd.

Mae'n rhaid i bob cyfarfod cyffredinol gael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau canlynol.

### (2) Galw cyfarfodydd cyffredinol

(a) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen:

(i) galw'r cyfarfod cyffredinol blynyddol o aelodau'r SCE yn unol ag is-gymal (1) o'r cymal hwn, a'i nodi felly yn yr hysbysiad o'r cyfarfod; a

(ii) gallant alw unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r aelodau unrhyw bryd.

(b) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen, o fewn 21 diwrnod, alw cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE:

(i) os ydynt yn cael cais i wneud hynny gan o leiaf 10% o aelodau'r SCE; a

(ii) os yw'r cais yn datgan natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod, a'i ddilysu gan yr aelod(au) sy'n gwneud y cais.

(c) Os, ar adeg unrhyw gais o'r fath, na fu unrhyw gyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE am fwy na 12 mis, yna bydd is-gymal (b)(i) o'r cymal hwn yn weithredol fel pe bai 5% yn disodli 10%.

(ch) Gall unrhyw gais o'r fath gynnwys manylion cynnig y gellir ei gyflwyno'n briodol, ac y bwriedir iddo gael ei gyflwyno, yn y cyfarfod.

(d) Gall cynnig gael ei gyflwyno'n briodol dim ond os yw'n gyfreithlon, ac nid yw'n ddifenwol, yn wacsaw neu flinderus.

(dd) Mae'n rhaid i unrhyw gyfarfod cyffredinol a elwir gan yr ymddiriedolwyr elusen yn dilyn cais gan aelodau'r SCE gael ei gynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y mae'n cael ei alw.

(e) Os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon i alw cyfarfod cyffredinol ar gais ei aelodau, yna gall yr aelodau a ofynnodd am y cyfarfod alw cyfarfod cyffredinol eu hunain.

(f) Mae'n rhaid i gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw felly gael ei gynnal ddim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad pan wnaeth yr aelodau gais am y cyfarfod yn gyntaf.

(ff) Mae'n rhaid i'r SCE ad-dalu unrhyw gostau rhesymol a ddaw i'r aelodau sy'n galw cyfarfod cyffredinol drwy rinwedd methiant ar ran yr ymddiriedolwyr elusen i alw'r cyfarfod yn briodol, ond bydd hawl gan y SCE i gael ei indemnio gan yr ymddiriedolwyr elusen oedd yn gyfrifol am fethiant o'r fath.

**(3) Hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol**

(a) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen neu, yn ôl yr achos, aelodau perthnasol o'r SCE, roi o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod cyffredinol i bob aelod, ac i unrhyw ymddiriedolwr elusen y SCE nad yw'n aelod.

(b) Os cytunir gan ddim llai na 90% o holl aelodau'r SCE, gall unrhyw gynnig gael ei gyflwyno a'i basio yn y cyfarfod er bod gofynion is-gymal (3)(a) y cymal hwn heb gael ei fodloni. Nid yw'r is-gymal hwn yn gymwys os oes yw cymal arall yn y cyfansoddiad hwn, Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn gofyn yn benodol am gyfnod penodedig o rybudd.

(c) Mae'n rhaid i'r hysbysiad o unrhyw gyfarfod cyffredinol:

(i) nodi amser a dyddiad y cyfarfod;

(ii) nodi'r cyfeiriad lle y bwriedir cynnal y cyfarfod;

(iii) rhoi manylion unrhyw gynnig sydd i'w roi gerbron y cyfarfod, a natur gyffredinol unrhyw fusnes arall sydd i'w drafod yn y cyfarfod; a

(iv) os yw cynnig i newid cyfansoddiad y SCE i'w ystyried yn y cyfarfod, dylid cynnwys testun y newid arfaethedig;

(v) cynnwys, gyda'r hysbysiad ar gyfer y CCB, y datganiad blynyddol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, manylion y bobl sy'n sefyll i'w hethol neu eu hail-ethol fel ymddiriedolwr, neu os caniateir o dan gymal [22] (Defnyddio cyfathrebu electronig), manylion sy'n dangos ble y gellir cael hyd i'r wybodaeth ar wefan y SCE.

(ch) Bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys rhybudd wedi cael ei chyfeirio'n briodol, yn rhagdaledig neu fod ffurf electronig o rybudd wedi cael ei gyfeirio'n briodol a'i anfon, yn dystiolaeth derfynol bod rhybudd wedi cael ei roi. Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei roi 48 awr ar ôl iddo gael ei bostio neu ei anfon.

(d) Ni fydd trafodion cyfarfod yn cael eu hannilysu oherwydd nad oedd aelod a oedd â hawl i gael rhybudd o'r cyfarfod heb dderbyn rhybudd am fod y SCE wedi'i hepgor yn ddamweiniol.

**(4) Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol**

Bydd y sawl a enwebir fel cadeirydd gan yr ymddiriedolwyr elusen o dan gymal [19](2) (Cadeirio cyfarfodydd), os yw'n bresennol yn y cyfarfod cyffredinol ac yn barod i weithredu, yn llywyddu fel cadeirydd y cyfarfod. Yn amodol ar hynny, bydd aelodau'r SCE sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol yn ethol cadeirydd i lywyddu yn y cyfarfod.

**(5) Cworwm mewn cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Ni all unrhyw fusnes gael ei drafod mewn unrhyw gyfarfod

cyffredinol o aelodau'r SCE oni bai bod cworwm yn bresennol pan fydd y cyfarfod yn dechrau.

(b) Yn amodol ar y darpariaethau canlynol, y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd y mwyaf o [5]% neu [dri] aelod. Mae sefydliad sydd wedi'i gynrychioli gan unigolyn sy'n bresennol yn y cyfarfod yn unol ag is-gymal y cymal hwn yn cael ei gyfrif fel un sy'n bresennol mewn person.

(c) Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw gan neu ar gais yr aelodau ac nid yw cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser dechrau a bennwyd yn yr hysbysiad o'r cyfarfod, mae'r cyfarfod yn dod i ben.

(ch) Os yw'r cyfarfod wedi cael ei alw mewn unrhyw ffordd arall ac nid yw cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o'r amser cychwyn a bennwyd yn yr hysbysiad o'r cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Bydd dyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r cyfarfod [naill ai i'w gyhoeddi gan y cadeirydd neu] i'w hysbysu i aelodau'r SCE o leiaf saith diwrnod clir cyn y dyddiad y bydd yn ailddechrau.

(d) Os nad yw cworwm yn bresennol o fewn 15 munud o amser dechrau'r cyfarfod a ohiriwyd, mae'r aelod neu'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn gworwm.

(dd) Os ar unrhyw adeg yn ystod cyfarfod mae cworwm yn peidio â bod yn bresennol, gall y cyfarfod drafod materion a gwneud argymhellion i'r ymddiriedolwyr ond ni all wneud unrhyw benderfyniadau. Os oes angen gwneud penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan gyfarfod o'r aelodau, mae'n rhaid gohirio'r cyfarfod.

**(6) Pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol**

(a) Bydd unrhyw benderfyniad heblaw un sydd wedi'i gynnwys o fewn cymal [10(4)] (Penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud mewn ffordd arbennig) gael ei wneud gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod [(gan gynnwys pleidleisiau drwy ddirprwy a phleidleisiau trwy'r post)]. Mae un bleidlais gan bob aelod [oni bai y darperir fel arall yn hawliau dosbarth arbennig o aelodaeth o dan y cyfansoddiad hwn].

(b) Bydd cynnig i'w bleidleisio arno yn y cyfarfod yn cael ei benderfynu trwy ddangos dwylo, oni bai (cyn neu wrth gyhoeddi canlyniad dangos dwylo) fod galwad am gyfrif pleidleisiau. Gall y cadeirydd neu o leiaf 10% o'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy yn y cyfarfod fynnu bod pleidlais yn cael ei chynnal.

(c) Os oes cais i gyfrif pleidleisiau ar gyfer ethol unigolyn i gadeirio cyfarfod neu ar gwestiwn o ohirio'r cyfarfod, rhaid cyfrif y pleidleisiau ar unwaith. Bydd pleidlais ar unrhyw fater arall yn cael ei gymryd, a bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi yn y dull a benderfynir gan gadeirydd y cyfarfod, ar yr amod bod rhaid i'r bleidlais gael ei chymryd, a bod rhaid cyhoeddi canlyniad y bleidlais, o fewn 30 diwrnod o'r cais i gynnal pleidlais.

(ch) Gall pleidlais gael ei chymryd:

(i) yn y cyfarfod lle y cafodd ei alw; neu

(ii) ar ryw adeg ac mewn lleoliad arall a bennir gan y cadeirydd; neu

(iii) drwy ddefnyddio cyfathrebu drwy'r post neu gyfathrebu electronig.

[(d) Yn achos pleidleisiau cyfartal, boed drwy ddangos dwylo neu drwy bleidlais, bydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw gan gadeirydd y cyfarfod.]

(dd) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisiwr gael ei godi yn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn cael ei bwrw a bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod yn derfynol.

**(7) Cynrychioli [sefydliadau ac] aelodau corfforaethol**

Gall [sefydliad neu] gorff corfforaethol sy'n aelod o'r SCE, yn unol â'i broses gwneud penderfyniadau arferol, awdurdodi unigolyn i weithredu fel ei gynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r SCE.

Mae hawl gan y cynrychiolydd arfer yr un pwerau ar ran y [sefydliad neu'r] corff corfforaethol fel y gallai'r [sefydliad neu] gorff corfforaethol ei arfer fel aelod unigol o'r SCE.

### (8) Gohirio cyfarfodydd

Gall y cadeirydd gyda chydsyniad cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a bydd yn gwneud hynny os caiff ei gyfarwyddo gan y cyfarfod) ohirio'r cyfarfod i amser a/neu leoliad arall. Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod a ohiriwyd ac eithrio busnes y gellid fod wedi ei drafod yn briodol yn y cyfarfod gwreiddiol.

## 12. Ymddiriedolwyr elusen

(1) **Swyddogaethau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen**

Bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn rheoli busnes y SCE ac er mwyn cyflawni'r diben hwnnw gallant arfer holl bwerau'r SCE. Mae dyletswydd gan bob ymddiriedolwr elusen i:

(a) arfer ei bwerau a chyflawni ei swyddogaethau fel ymddiriedolwr y SCE yn y ffordd y penderfyna mewn ewyllys da y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE; a

(b) arfer, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, y fath ofal a medr ag y bo'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan roi ystyriaeth arbennig i:

(i) unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo neu ganddi neu yr honnir sydd ganddo/ ganddi; ac

(ii) os yw'n gweithredu fel ymddiriedolwr elusen y SCE yn rhinwedd busnes neu broffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan rywun sy'n gweithredu yn rhinwedd y math hwnnw o fusnes neu broffesiwn.

(2) **Cymhwyster i fod yn ymddiriedolwr**

(a) Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn berson naturiol.

(b) Ni ellir penodi unrhyw un fel ymddiriedolwr elusen:

- os yw'n iau nag 16 oed; neu
- pe byddai yn peidio â dal swydd yn awtomatig o dan

ddarpariaethau cymal [15(1)(dd)].

(c) Ni fydd hawl gan unrhyw un weithredu fel ymddiriedolwr elusen pan gaiff ei benodi neu ei ailbenodi hyd nes ei fod wedi cydnabod yn benodol, ym mha bynnag ffordd a benderfynir gan yr ymddiriedolwyr elusen, ei fod yn derbyn swydd ymddiriedolwr elusen.

(ch) Mae'n rhaid i o leiaf un o ymddiriedolwyr y SCE fod yn 18 oed neu'n hŷn. Os nad oes unrhyw ymddiriedolwr sydd o leiaf yn 18 oed, gall yr ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr sy'n weddill weithredu dim ond I alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen, neu benodi ymddiriedolwr elusen newyd.]

(3) **Nifer yr ymddiriedolwyr elusen**

Dewis 1

(a) Mae'n rhaid cael o leiaf [tri] ymddiriedolwr elusen. Os yw'r nifer yn is na'r isafswm hwn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr sy'n weddill weithredu dim ond i alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen, neu benodi ymddiriedolwr elusen newydd.

Dewis 1a

(b) Y nifer mwyaf o ymddiriedolwyr elusen yw [12]. Ni all yr ymddiriedolwyr elusen benodi unrhyw ymddiriedolwr elusen os yw hynny'n golygu y byddai nifer yr ymddiriedolwyr elusen yn fwy na'r uchafswm.

Dewis 1b

(b) Nid oes unrhyw nifer mwyaf o ymddiriedolwyr elusen a allai gael eu penodi i'r SCE.

Dewis 2

(a) Dylai fod:

[Dim llai na....na mwy na]... o ymddiriedolwyr etholedig;

[… ymddiriedolwr[wyr] ex officio; a

[Dim llai na....na mwy na] ... o ymddiriedolwyr enwebedig.]

(b) Mae'n rhaid cael o leiaf [tri] ymddiriedolwr elusen. Os yw'r nifer yn is na'r isafswm hwn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr sy'n weddill weithredu dim ond i alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen, neu benodi ymddiriedolwr elusen newydd.

(c) Mae'r nifer mwyaf o ymddiriedolwyr elusen y gellir eu penodi wedi'u nodi yn is-gymal (a) o'r cymal hwn. Ni all ymddiriedolwr gael ei benodi os yw'n mynd â'r nifer yn fwy na'r darpariaethau hyn.

(4) **Ymddiriedolwyr elusen cyntaf**

Ymddiriedolwyr elusen cyntaf y SCE yw –

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

**13.Penodi ymddiriedolwyr elusen**

Dewis 1

[(1) Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf aelodau'r SCE bydd yr holl ymddiriedolwyr elusen yn ymddeol o'u swydd.]

(2) Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol [dilynol] o aelodau'r SCE, bydd un rhan o dair o'r ymddiriedolwyr elusen yn ymddeol o'u swydd. Os nad yw nifer yr ymddiriedolwyr elusen yn dri neu'n lluosrif o dri, yna bydd y nifer sy'n agosaf i un rhan o dair yn ymddeol o'u swydd, ond os mai dim ond un ymddiriedolwr elusen sydd, bydd ef neu hi yn ymddeol;

(3) Yr ymddiriedolwyr elusen fydd yn ymddeol yn eu tro fydd y rhai sydd

wedi bod yn y swydd am y cyfnod hwyaf ers eu penodiad neu eu hailbenodiad diwethaf. Os cafodd unrhyw ymddiriedolwyr eu penodi neu eu hailbenodi diweddaf ar yr un diwrnod, penderfynir pwy fydd yn ymddeol (oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymysg ei gilydd) trwy fwrw coelbren.

(4) Gall y swyddi gwag sy'n codi felly gael eu llenwi drwy benderfyniad aelodau yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol; gall unrhyw swyddi gwag sydd heb eu llenwi mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol gael eu llenwi fel y darperir ar ei gyfer yn is-gymal (5) o'r cymal hwn;

(5) Gall yr aelodau neu'r ymddiriedolwyr elusen benderfynu unrhyw bryd i benodi ymddiriedolwr elusen newydd, boed yn lle ymddiriedolwr elusen sydd wedi ymddeol neu sydd wedi cael ei ddiswyddo yn unol â chymal [15] (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen), neu fel ymddiriedolwr elusen ychwanegol, ar yr amod na fyddai'r terfyn penodedig yng nghymal [12(3)] ar nifer yr ymddiriedolwyr elusen yn cael ei ragori o ganlyniad.

(6) Bydd unrhyw un a benodir felly gan aelodau'r SCE yn ymddeol yn unol â darpariaethau is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn. Bydd unrhyw un a benodir felly gan yr ymddiriedolwyr elusen yn ymddeol ar ddiwedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf ar ôl dyddiad ei benodiad, ac ni chaiff ei gyfrif at ddiben pennau pa rai o'r ymddiriedolwyr elusen fydd yn ymddeol yn eu tro yn y cyfarfod hwnnw.

Dewis 2

(1) **Ymddiriedolwyr elusen etholedig**

[(a) Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf aelodau'r SCE bydd yr holl ymddiriedolwyr elusen etholedig yn ymddeol o'u swydd;]

(b) Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol [dilynol] o aelodau'r SCE, bydd un rhan o dair o'r ymddiriedolwyr elusen etholedig yn ymddeol o'u swydd. Os nad yw nifer yr ymddiriedolwyr elusen etholedig yn dri neu'n lluosrif o dri, yna bydd y nifer sy'n agosaf i un rhan o dair yn ymddeol o'u swydd, ond os mai dim ond un ymddiriedolwr elusen sydd, bydd ef neu hi yn ymddeol;

(c) Yr ymddiriedolwyr elusen fydd yn ymddeol yn eu tro fydd y rhai sydd wedi bod yn y swydd am y cyfnod hwyaf ers eu penodiad neu eu hailbenodiad diwethaf. Os cafodd unrhyw ymddiriedolwyr eu penodi neu eu hailbenodi diweddaf ar yr un diwrnod, penderfynir pwy fydd yn ymddeol (oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymysg ei gilydd) trwy fwrw coelbren;

(ch) Gall y swyddi gwag sy'n codi felly gael eu llenwi drwy benderfyniad aelodau yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol; gall unrhyw swyddi gwag sydd heb eu llenwi mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol gael eu llenwi fel y darperir ar ei gyfer yn is-gymal d) o'r cymal hwn;

(d) Gall yr aelodau neu'r ymddiriedolwyr elusen benderfynu unrhyw bryd i benodi ymddiriedolwr elusen newydd, boed yn lle ymddiriedolwr elusen sydd wedi ymddeol neu sydd wedi cael ei ddiswyddo yn unol â chymal [15] (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen), neu fel ymddiriedolwr elusen ychwanegol, ar yr amod na fyddai'r terfyn penodedig yng nghymal [12(3)] ar nifer yr ymddiriedolwyr elusen yn cael ei ragori o ganlyniad;

(dd) Bydd unrhyw un a benodir felly gan aelodau'r SCE yn ymddeol yn unol â darpariaethau is-gymalau (b) ac (c) y cymal hwn. Bydd unrhyw un a benodir felly gan yr ymddiriedolwyr elusen yn ymddeol ar ddiwedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn dilyn dyddiad ei benodiad, ac ni chaiff ei gyfrif at ddiben pennau pa rai o'r ymddiriedolwyr elusen fydd yn ymddeol yn eu tro yn y cyfarfod hwnnw.

[(2) **Ymddiriedolwr[wyr] ex officio**

Bydd y [nodwch y rôl] am y tro ("deiliaid y swydd"), drwy rinwedd dal y swydd honno ("ex officio"), yn ymddiriedolwr elusen yn awtomatig,

Os nad yw'n barod i weithredu fel ymddiriedolwr elusen, gall deiliaid y swydd:

(a) cyn derbyn ei benodiad fel ymddiriedolwr elusen, roi rhybudd ysgrifenedig i'r ymddiriedolwyr ei fod yn anfodlon gweithredu yn rhinwedd y swydd honno; neu

(b) ar ôl derbyn ei benodiad fel ymddiriedolwr elusen, ymddiswyddo o dan y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghymal [15] (Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen).

Yna bydd swydd yr ymddiriedolwr elusen ex officio yn parhau'n wag nes bod deiliad y swydd yn peidio â dal y swydd.]

[(3) **Ymddiriedolwr[wyr] Elusen Enwebedig**

(a) Gall [rhowch enw'r corff sy'n penodi] ("y corff sy'n penodi") benodi [rhowch nifer] ymddiriedolwr elusen.

(b) Rhaid i unrhyw benodiad gael ei wneud mewn cyfarfod a gynhelir yn unol ag arferion cyffredin y corff sy'n penodi.

(c) Mae'n rhaid i bob penodiad fod am gyfno o [3] blynedd.

(ch) Bydd y penodiad yn effeithiol o ba un bynnag dyddiad a ddawolaf:

(i) y dyddiad y daeth y swydd yn wag; neu

(ii) y dyddiad yr hysbysir y SCE am y penodiad.

(d) Nid oes rhaid i'r sawl a benodir fod yn aelod o'r corff sy'n penodi.

(dd) Mae gan ymddiriedolwr a benodir gan y corff sy'n penodi yr un ddyletswydd o dan Gymal 12 â'r ymddiriedolwyr elusen eraill i weithredu mewn ffordd y penderfyna mewn ewyllys da y byddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo dibenion y SCE]

**14.Gwybodaeth i ymddiriedolwyr elusen newydd**

Bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn darparu'r canlynol i bob ymddiriedolwr elusen newydd, ar neu cyn ei benodiad cyntaf:

(a) copi o'r cyfansoddiad hwn ac unrhyw newidiadau a wnaed iddo; a

(b) copi o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a datganiad o gyfrifon diweddaraf y SCE.

**15.Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr**

(1) Bydd ymddiriedolwr elusen yn peidio â dal swydd os yw'n:

(a) ymddeol drwy hysbysu'r SCE drwy lythyr (ond dim ond os bydd digon o ymddiriedolwyr elusen yn parhau yn eu swydd pan fydd yr hysbysiad ymddiswyddo yn weithredol i ffurfio cworwm ar gyfer cyfarfod ydd).

(b) absennol heb ganiatâd yr ymddiriedolwyr elusen o bob un o'u cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o chwe mis ac mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu y dylai adael ei swydd.

(c) marw;

(ch) yn y farn ysgrifenedig, a roddir i'r SCE, gan feddyg teulu cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw, wedi datblygu anallu corfforol neu feddyliol i weithredu fel ymddiriedolwr a gall barhau felly am fwy na thri mis;

(d) [cael ei ddiswyddo gan aelodau'r SCE yn unol ag is-gymal (2) o'r cymal hwn;] neu

(dd) wedi'i wahardd rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen yn ôl adran 178-180 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad statudol o'r ddarpariaeth honno).

[(2) Caiff ymddiriedolwr elusen ei ddiswyddo o'i swydd os yw cynnig i ddiswyddo'r ymddiriedolwr hwnnw yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau a alwyd at y diben hwnnw ac sydd wedi'i gynnull yn briodol yn unol â chymal [11], ac mae'r cynnig yn cael ei basio gan fwyafrif o [ddwy ran o dair] o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn y cyfarfod.

(3) Ni fydd cynnig i ddiswyddo ymddiriedolwr elusen yn unol â'r cymal hwn yn weithredol oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cael o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig bod y cynnig yn cael ei gyflwyno, gan nodi'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn cyfiawnhau ei ddiswyddo o'r swydd, ac mae wedi cael cyfle rhesymol i wneud sylwadau llafar a/neu ysgrifenedig i aelodau'r SCE.]

**16. Ailbenodi ymddiriedolwyr elusen**

Mae unrhyw un sy'n ymddeol fel ymddiriedolwr elusen yn ei dro neu drwy roi rhybudd i'r SCE yn gymwys i'w ailbenodi. [Ni all ymddiriedolwr elusen sydd

wedi gwasanaethau am [dri] chyfnod olynol gael ei ailbenodi am [bedwerydd] cyfnod olynol ond gall gael ei ailbenodi ar ôl saib o [dair blynedd] o leiaf].

## 17. Ymddiriedolwyr elusen yn gwneud penderfyniadau

Gall unrhyw benderfyniad gael ei wneud naill ai:

- yng nghyfarfod yr ymddiriedolwr elusen; neu

- drwy gynnig ysgrifenedig [neu ar ddull electronig] wedi'i gytuno gan fwyafrif o'r holl ymddiriedolwyr elusen, a allai gynnwys naill ai un ddogfen neu sawl dogfen sy'n cynnwys testun y penderfyniad mewn ffurf debyg y mae'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen wedi llofnodi eu bod yn cytuno ag ef. Bydd penderfyniad o'r fath yn weithredol ar yr amod bod

    - copi o'r penderfyniad arfaethedig wedi cael ei anfon ar, neu mor agos ag sy'n rhesymol posibl at, yr un amser i bob un o'r ymddiriedolwyr elusen; a bod

    - y mwyafrif o'r holl ymddiriedolwyr elusen wedi datgan eu bod yn cytuno â'r penderfyniad mewn dogfen neu ddogfennau sydd wedi cael ei dilysu neu eu dilysu gan eu llofnod, gan ddatganiad o'u hunaniaeth sy'n ategu'r ddogfen neu'r dogfennau, neu mewn modd arall fel y penderfynwyd cyn hynny gan yr ymddiriedolwyr elusen, a'i gyflwyno i'r SCE yn ei brif swyddfa neu fan tebyg arall fel y penderfynir gan yr ymddiriedolwyr [o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad cylchredeg].

## 18. Dirprwyo gan ymddiriedolwyr elusen

(1) Gall yr ymddiriedolwyr elusen ddirprwyo unrhyw bwerau neu swyddogaethau sydd ganddynt i bwyllgor neu bwyllgorau, ac os ydynt yn gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt bennu'r telerau a'r amodau ar gyfer dirprwyo. Gall yr ymddiriedolwyr elusen addasu'r telerau a'r amodau hynny unrhyw bryd, neu ddiddymu'r ddirprwyaeth.

(2) Mae'r pŵer hwn yn ychwanegol i'r pŵer dirprwyo yn y Rheoliadau Cyffredinol ac unrhyw bŵer arall i ddirprwyo sydd ar gael i'r ymddiriedolwyr elusen, ond mae'n amodol ar y gofynion canlynol –

(a) gall pwyllgor gynnwys dau unigolyn neu ragor, ond mae'n rhaid i o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn ymddiriedolwr elusen;

(b) mae'n rhaid i weithredoedd a thrafodion unrhyw bwyllgor gael eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen fel cyfangorff cyn gynted â bod hynny'n rhesymol ymarferol; ac

(c) bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn adolygu, o bryd i'w gilydd, y trefniadau y maent wedi'u gwneud ar gyfer dirprwyo eu pwerau.

**19. Cyfarfodydd a thrafodion ymddiriedolwyr elusen**

(1) **Galw cyfarfodydd**

(a) Gall unrhyw ymddiriedolwr elusen alw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr elusen.

(b) Yn amodol ar hynny, bydd yr ymddiriedolwyr elusen yn penderfynu sut y caiff eu cyfarfodydd eu galw, a pha rybudd sydd ei angen.

(2) **Cadeirio cyfarfodydd**

Gall yr ymddiriedolwyr elusen benodi un o'u plith i gadeirio eu cyfarfodydd a gallant ddiddymu penodiad o'r fath ar unrhyw adeg. Os nad yw unrhyw un wedi'i benodi felly, neu os yw'r sawl a benodir yn amharod i lywyddu neu nid yw'n bresennol o fewn 10 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i gynnal y cyfarfod, gall yr ymddiriedolwr elusen sy'n bresennol benodi un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

(3) **Y drefn mewn cyfarfodydd**

(a) Ni chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud mewn cyfarfod oni bai bod cworwm yn bresennol ar yr adeg pan gaiff y penderfyniad ei wneud. Y cworwm yw [dau] ymddiriedolwr elusen, neu'r rhif agosaf i [un rhan o dair] o gyfanswm nifer yr ymddiriedolwyr elusen, p'un bynnag yw'r mwyaf, neu rif mwy a all gael ei benderfynu o bryd i'w gilydd gan yr ymddiriedolwyr elusen. Ni chaiff ymddiriedolwr ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ynghylch mater nad oes hawl gan yr ymddiriedolwr hwnnw bleidleisio arno.

(b) Bydd cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif o'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio.

[(c) Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw gan y cadeirydd.]

(4) **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd drwy ddull electronig**

(a) Gall cyfarfod gael ei gynnal drwy ddull electronig addas a gytunwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen lle y gall pob cyfranogwr gyfathrebu â phob un o'r cyfranogwyr eraill.

(b) Bydd unrhyw ymddiriedolwr elusen sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod drwy ddull electronig addas a gytunwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen lle y gall y cyfranogwr neu'r cyfranogwyr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill fod yn gymwys i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

(c) Mae'n rhaid i gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal drwy ddull electronig gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cadeirio a chymryd cofnodion.

**20.Darpariaethau arbed**

(1) Yn amodol ar is-gymal (2) y cymal hwn, bydd pob penderfyniad yr ymddiriedolwyr elusen, neu bwyllgor yr ymddiriedolwyr elusen, yn ddilys heb ystyried cyfranogiad mewn unrhyw bleidlais gan ymddiriedolwr elusen:

- a oedd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;
- a oedd wedi ymddeol cyn hynny neu yr oedd yn ofynnol iddo neu iddi adael y swydd yn ôl y cyfansoddiad;
- a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;
- y mae diffyg technegol yn eu penodiad fel ymddiriedolwr nad oedd yr ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohono ar y pryd.

os, heb bleidlais yr ymddiriedolwr elusen hwnnw a chyfrif yr ymddiriedolwr elusen yn y cworwm, yw'r penderfyniad wedi cael ei wneud gan fwyafrif o'r ymddiriedolwr elusen mewn cyfarfod â chworwm.

(2) Nid yw is-gymal (1) y cymal hwn yn caniatáu i ymddiriedolwr elusen

gadw unrhyw fudd y gall unrhyw gynnig gan yr ymddiriedolwr elusen neu bwyllgor o'r ymddiriedolwyr elusen ei roi iddo neu iddi os, heblaw am gymal (1), byddai'r cynnig wedi bod yn annilys, neu os nad yw'r ymddiriedolwyr elusen wedi cydymffurfio â chymal 7 (Gwrthdaro buddiannau).

**21.Cyflawni dogfennau**

(1) Bydd y SCE yn cyflawni dogfennau naill ai drwy lofnod neu drwy osod ei sêl (os oes un ganddo).

(2) Mae dogfen wedi'i chyflawni'n ddilys drwy lofnod os yw'n cael ei llofnodi gan o leiaf dau o'r ymddiriedolwyr elusen.

(3) [Os oes sêl gan y SCE:

(a) mae'n rhaid iddo gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Cyffredinol; a

(b) mae'n rhaid i'r sêl gael ei ddefnyddio drwy awdurdod yr ymddiriedolwyr elusen neu bwyllgor o ymddiriedolwyr elusen wedi'i awdurdodi'n briodol gan yr ymddiriedolwyr elusen. Gall yr ymddiriedolwyr elusen benderfynu pwy fydd yn llofnodi unrhyw ddogfen y mae'r sêl wedi'i osod arno ac oni bai y pennir fel arall caiff ei llofnodi gan ddau o'r ymddiriedolwyr elusen.]

**22.Defnyddio cyfathrebu electronig**

**[(1) Cyffredinol]**

Bydd y SCE yn cydymffurfio â gofynion y Darpariaethau Cyfathrebu yn y Rheoliadau Cyffredinol ac yn arbennig:

(a) y gofyniad i ddarparu o fewn 21 diwrnod i unrhyw aelod ar gais gopi caled o unrhyw ddogfen neu wybodaeth a anfonwyd at yr aelod heblaw ar ffurf copi caled;

(b) unrhyw ofynion i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn mewn ffurf neu ddull arbennig.

**23.Cadw Cofrestri**

Mae'n rhaid i'r SCE gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyffredinol o ran cadw a chynnig mynediad i gofrestri o'i haelodau a'r ymddiriedolwyr elusen.

## 24. Cofnodion

Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gadw cofnodion o'r holl:

(1) [swyddogion a benodir gan yr ymddiriedolwyr elusen];

(2) trafodion yng nghyfarfodydd cyffredinol y SCE;

(3) cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr elusen a phwyllgorau'r ymddiriedolwyr elusen gan gynnwys:

- enwau'r ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;
- y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd; a
- lle y bo'n briodol y rhesymau dros y penderfyniadau;

(4) y penderfyniadau a wnaed gan yr ymddiriedolwyr elusen heblaw mewn cyfarfodydd.

## 25. Cofnodion cyfrifyddu, cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol, cynnal y gofrestr

(1) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011 o ran cadw cofnodion cyfrifyddu, paratoi a chraffu ar ddatganiadau o gyfrifon, a pharatoi adroddiadau a ffurflenni blynyddol. Mae'n rhaid i'r datganiadau o gyfrifon, adroddiadau a ffurflenni gael eu hanfon i'r Comisiwn Elusennau, waeth beth fo incwm y SCE, o fewn 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(2) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â'u rhwymedigaethau i hysbysu'r Comisiwn o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid i fanylion y SCE a nodwyd ar y Gofrestr Elusennau Ganolog.

## 26. Rheolau

Gall yr ymddiriedolwyr elusen, o bryd i'w gilydd, lunio rheolau neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol y teimlant eu bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol er mwyn rheoli a gweinyddu'r SCE yn briodol, ond mae'n rhaid i

reolau neu is-ddeddfau o'r fath fod yn gyson ag unrhyw ddarpariaeth yn y cyfansoddiad hwn. Mae'n rhaid i gopïau o unrhyw reolau neu is- ddeddfau o'r fath sydd mewn grym ar hyn o bryd fod ar gael i unrhyw aelod o'r SCE ar gais.

## 27. Anghydfodau

Os oes anghydfod rhwng aelodau'r SCE ynghylch ddilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan yr aelodau o dan y cyfansoddiad hwn, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon yn yr anghydfod geisio datrys yr anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfryngu cyn troi at gyfreitha.

## 28. Diwygio'r cyfansoddiad

Fel y darparwyd gan gymalau 224-227 o Ddeddf Elusennau 2011:

(1) Gellir diwygio'r cyfansoddiad hwn dim ond:

(a) drwy gynnig wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan bob aelod o'r SCE; neu

(b) drwy gynnig wedi'i basio gan fwyafrif o 75% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw yng nghyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE.

(2) Byddai unrhyw newid i amcanion y SCE, i unrhyw ddarpariaeth yng nghyfansoddiad y SCE sy'n cyfarwyddo cymhwyso eiddo pan gaiff ei ddiddymu neu unrhyw ddarpariaeth yng nghyfansoddiad y SCE lle y byddai'r newid yn darparu awdurdodiad ar gyfer unrhyw fudd i'w gael gan yr ymddiriedolwyr elusen neu aelodau'r SCE neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw, yn gofyn am gydsyniad ysgrifenedig y Comisiwn Elusennau ymlaen llaw.

(3) Ni fydd unrhyw ddiwygiad nad yw'n gyson â darpariaethau Deddf Elusennau 2011 neu'r Rheoliadau Cyffredinol yn ddilys.

(4) Mae'n rhaid anfon copi o unrhyw gynnig sy'n diwygio'r cyfansoddiad, ynghyd â chopi o gyfansoddiad y SCE fel y'i diwygiwyd, i'r Comisiwn erbyn o fewn 15 diwrnod o ddyddiad pasio'r cynnig.

## 29. Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol

(1) Fel y darparwyd gan y Rheoliadau Diddymu, gall y SCE gael ei

ddiddymu gan benderfyniad ei aelodau. Gall unrhyw benderfyniad gan yr aelodau i ddirwyn i ben neu ddiddymu'r SCE gael ei wneud dim ond:

(a) mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau'r SCE wedi'i alw yn unol â chymal [11] (Cyfarfodydd o'r aelodau), ac nid yw llai na 14 diwrnod o rybudd wedi cael ei roi i'r rhai sy'n gymwys i fod yn bresennol a phleidleisio:

(i) drwy gynnig a basiwyd gan fwyafrif o 75% o'r rhai sy'n pleidleisio; neu

(ii) drwy gynnig a basiwyd gan benderfyniad sy'n cael ei gymryd heb bleidlais heb unrhyw fynegiant o anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn a roddwyd gerbron y cyfarfod cyffredinol; neu

(b) gan gynnig wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan bob aelod o'r SCE.

(2) Yn amodol ar dalu holl ddyledion y SCE:

(a) Gall unrhyw gynnig i ddirwyn y SCE i ben, neu ddiddymu'r SCE heb ddirwyn i ben, gynnwys darpariaeth sy'n cyfarwyddo sut y caiff unrhyw asedau sy'n weddill y SCE eu defnyddio.

(b) Os nad yw'r penderfyniad yn cynnwys darpariaeth o'r fath, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen benderfynu sut y caiff unrhyw asedau sy'n weddill y SCE eu defnyddio.

(c) Yn y naill achos neu'r llall mae'n rhaid i'r asedau sy'n weddill gael eu defnyddio ar gyfer dibenion elusennol sydd yr un fath neu'n debyg i rai'r SCE.

(3) Mae'n rhaid i'r SCE fodloni gofynion y Rheoliadau Diddymu wrth wneud cais i'r Comisiwn i ddileu'r SCE o'r Gofrestr Elusennau, ac yn arbennig:

(a) mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen anfon y canlynol gyda'u cais i'r Comisiwn:

(i) copi o'r cynnig a basiwyd gan aelodau'r SCE;

(ii) datganiad gan yr ymddiriedolwyr elusen bod unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau eraill y SCE wedi cael eu talu a'u bodloni

neu eu darparu ar eu cyfer fel arall yn llawn; a

(iii) datganiad gan yr ymddiriedolwyr elusen sy'n amlinellu sut y mae unrhyw eiddo'r SCE wedi cael neu'n bwriadu cael ei ddefnyddio cyn ei ddiddymu yn unol â'r cyfansoddiad hwn;

(b) mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen sicrhau bod copi o'r cais yn cael ei anfon o fewn saith diwrnod i bob aelod a gweithiwr y SCE, ac i unrhyw ymddiriedolwr elusen y SCE oedd heb fod yn gyfarwydd â'r cais.

(4) Os yw'r SCE yn bwriadu cael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu mewn unrhyw amgylchiadau eraill, rhaid dilyn darpariaethau'r Rheoliadau Diddymu.

## 30. Dehongli

Yn y cyfansoddiad hwn:

Ystyr "**unigolyn cysylltiedig**" yw:

(a) plentyn, rhiant, wyrion, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd yr ymddiriedolwr elusen neu aelod;

(b) gŵr neu wraig neu bartner sifil yr ymddiriedolwr elusen, aelod neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) uchod;

(c) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth â'r ymddiriedolwr elusen, aelod neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) neu (b) uchod;

(ch) sefydliad sydd wedi'i reoli –

(i) gan yr ymddiriedolwr elusen, aelod neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a), (b) neu (c) uchod; neu

(ii) gan ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (ch)(i), gyda'i gilydd

(d) corff corfforaethol lle mae gan –

(i) yr ymddiriedolwr elusen, aelod neu unrhyw unigolyn

cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (a) i (c) fudd sylweddol; neu

(ii) dau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (d)(i) a, gyda'i gilydd, mae ganddynt fudd sylweddol.

Mae adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011 yn gymwys at ddibenion dehongli'r termau a ddefnyddir yn y cyfansoddiad hwn.

Ystyr "**Rheoliadau Cyffredinol**" yw Rheoliadau (Cyffredinol) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012.

Ystyr "**Rheoliadau Diddymu**" yw Rheoliadau (Ansolfedd a Diddymu) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012.

Ystyr "**Darpariaethau Cyfathrebu**" yw Darpariaethau Cyfathrebu yn [Rhan 9, Pennod 4] o'r Rheoliadau Cyffredinol.

Ystyr "**ymddiriedolwyr elusen**" yw ymddiriedolwr elusen y SCE.

Ystyr "**pleidlais**" yw llais neu bleidlais a gyfrifir, fel arfer (ond nid o reidrwydd) yn ysgrifenedig.

**Atodiad 1 – Darpariaethau dewisol**

Nid yw'r darpariaethau canlynol yn ffurfio rhan o'r cyfansoddiad enghreifftiol 'Sylfaen' ond maent ar gael fel dewisiadau o dan gymalau 11 (Cyfarfodydd cyffredinol o'r aelodau) a 22 (Defnyddio cyfathrebu electronig).

Ar gyfer SCEau sy'n bwriadu cynnwys y pwerau hyn yn eu cyfansoddiadau, argymhellwn eich bod yn defnyddio'r geiriad canlynol: Mae nodiadau ar y cymalau hyn wedi'u cynnwys o fewn y nodiadau esboniadol yn Atodiad 2.

Cyfarfodydd cyffredinol o'r aelodau

(7) **Pleidlais drwy ddirprwy**

(a) Gall unrhyw aelod o'r SCE benodi unigolyn arall fel dirprwy i arfer y cyfan neu unrhyw un o hawliau'r aelod i fynychu, siarad a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol o'r SCE. Mae'n rhaid i ddirprwyon gael eu penodi trwy rybudd ysgrifenedig ("hysbysiad drwy ddirprwy") sydd:

(i) yn nodi enw a chyfeiriad yr aelod sy'n penodi'r dirprwy;

(ii) adnabod y sawl sydd wedi'i benodi fel dirprwy yr aelod a'r cyfarfod cyffredinol y mae'r unigolyn hwnnw yn cael ei benodi ar ei gyfer;

(iii) wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi'i ddilysu mewn ffordd a bennir gan y SCE; ac

(iv) yn cael ei gyflwyno i'r SCE yn unol â'r cyfansoddiad ac unrhyw gyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhybudd o gyfarfod cyffredinol y mae'n cyfeirio ato.

(b) Gall y SCE fynnu bod hysbysiadau drwy ddirprwy yn cael eu cyflwyno mewn ffurf arbennig, a gall bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(c) Gall hysbysiadau drwy ddirprwy (ond nid oes rhaid iddynt) bennu sut y mae'r dirprwy a benodir oddi danynt yn pleidleisio (neu fod y dirprwy yn ymatal rhag pleidleisio) ar un cynnig neu ragor.

(ch) Oni bai bod hysbysiad drwy ddirprwy yn nodi fel arall, rhaid iddo

gael ei drin fel un sy'n:

(i) caniatáu i'r sawl a benodir oddi dano fel disgresiwn dirprwy ynghylch sut i bleidleisio ar unrhyw gynigion atodol neu drefniadol a roddwyd gerbron y cyfarfod, a

(ii) penodi'r unigolyn hwnnw fel dirprwy mewn perthynas ag unrhyw ohirio o'r cyfarfod cyffredinol y mae'n cyfeirio ato yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

(d) Mae aelod sydd â'r hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio (naill ai drwy godi llaw neu gyfrif pleidleisiau) mewn cyfarfod cyffredinol yn parhau â'r hawl ar gyfer y cyfarfod hwnnw neu unrhyw oedi o'r cyfarfod, er bod hysbysiad drwy ddirprwy dilys wedi cael ei gyflwyno i'r SCE gan neu ar ran yr unigolyn hwnnw.

(dd) Gall penodiad o dan hysbysiad drwy ddirprwy gael ei dynnu'n ôl trwy gyflwyno i'r SCE hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan neu ar ran yr aelod sydd wedi rhoi'r hysbysiad drwy ddirprwy neu y cafodd ei roi ar ei ran.

(e) Mae hysbysiad sy'n tynnu'n ôl penodiad drwy ddirprwy dim ond yn weithredol os caiff ei gyflwyno cyn dechrau'r cyfarfod neu gyfarfod a ohiriwyd y mae'n cyfeirio ato.

(f) Os nad yw hysbysiad drwy ddirprwy wedi'i lofnodi neu ei ddilysu gan yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, mae'n rhaid ategu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n datgan bod gan yr unigolyn a'i llofnododd neu a'i dilysodd ar ran yr aelod yr awdurdod i wneud hynny.

(8) **Pleidlais trwy'r Post**

(a) Gall y SCE, os yw'r ymddiriedolwr elusen yn penderfynu felly, ganiatáu i aelodau bleidleisio trwy'r post neu bost electronig ("e-bost") i ethol ymddiriedolwyr elusen neu wneud penderfyniad ar unrhyw fater sy'n cael ei benderfynu yng nghyfarfod cyffredinol o'r aelodau.

(b) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen benodi o leiaf dau unigolyn sy'n annibynnol ar y SCE i wasanaethu fel archwilwyr i orchwylio

cynnal y bleidlais trwy'r post/e- bost a chyfrif pleidleisiau.

(c) Os yw pleidlais trwy'r post/e-bost i'w chaniatáu ar fater, mae'n rhaid i'r SCE anfon i aelodau'r SCE ddim llai na [21] diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn pleidleisiau a fwrir yn y modd hwn:

(i) hysbysiad trwy'r e-bost, os yw'r aelod wedi cytuno i dderbyn hysbysiadau fel hyn o dan gymal [22] (Defnyddio dulliau cyfathrebu electronig), gan gynnwys esboniad o ddiben y bleidlais a'r drefn bleidleisio i'w dilyn gan yr aelod, a ffurflen bleidleisio sy'n gallu cael ei dychwelyd trwy'r e-bost neu'r post i'r SCE, sy'n cynnwys manylion y cynnig y bwriedir pleidlais arno, neu'r ymgeiswyr i'w hethol, fel y bo'n gymwys;

(ii) hysbysiad trwy'r post i bob aelod arall, gan gynnwys esboniad ysgrifenedig o bwrpas y bleidlais trwy'r post a'r drefn bleidleisio i'w dilyn gan yr aelod, a ffurflen pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys manylion y cynnig y bwrir pleidlais arno, neu'r ymgeiswyr i'w hethol, fel y bo'n gymwys.

(ch) Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio fynnu bod pob ffurflen yn cael ei dychwelyd trwy'r post mewn amlen gydag enw a llofnod yr aelod, a dim byd arall, ar y tu allan, y tu mewn i amlen arall wedi'i chyfeirio at "Yr Archwiliwr" ar gyfer [enw'r SCE], ym mhrif swyddfa'r SCE neu gyfeiriad post arall fel y pennwyd yn y drefn bleidleisio.

(d) Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio ar gyfer pleidleisiau sy'n cael eu bwrw trwy'r e-bost fynnu bod enw'r aelod i'w weld ar frig yr e-bost, ac mae'n rhaid i'r e-bost gael ei ddilysu yn y dull a bennwyd yn y drefn bleidleisio.

(dd) Mae'n rhaid i bleidleisiau e-bost gael eu dychwelyd i gyfeiriad e-bost a ddefnyddir dim ond at y diben hwnnw a dim ond archwiliwr all gael atynt.

(e) Mae'n rhaid i'r drefn bleidleisio nodi'r dyddiad cau a'r amser ar gyfer derbyn pleidleisiau, ac mae'n rhaid datgan y bydd unrhyw bleidleisiau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu bleidleisiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r drefn bleidleisio fod yn annilys ac ni chânt eu cyfrif.

(f) Mae’n rhaid i’r archwilwyr lunio rhestr o enwau’r aelodau sy’n bwrw pleidleisiau dilys, a rhestr ar wahân o aelodau sy’n bwrw pleidleisiau oedd yn annilys. Mae’n rhaid i’r rhestrau hyn gael eu rhoi i ymddiriedolwr elusen neu unigolyn arall sy’n goruchwylio derbyn unigolion a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol. Ni all aelod sydd wedi bwrw pleidlais trwy’r post neu e-bost bleidleisio yn y cyfarfod, ac ni ddylid ei gyfrif yn y cworwm ar gyfer unrhyw ran o’r cyfarfod y mae ef neu hi eisoes wedi bwrw pleidlais arno. Caniateir i aelod sydd wedi bwrw pleidlais annilys trwy’r post neu’r e-bost i bleidleisio yn y cyfarfod ac mae’n cyfrif tuag at y cworwm.

(ff) Yn achos pleidleisiau trwy’r post, mae’n rhaid i’r archwilwyr gadw amlenni mewnol (gydag enw a llofnod yr aelod). Yn achos pleidleisiau trwy’r e-bost, mae’n rhaid i’r archwilwyr dorri ymaith a chadw unrhyw ran o’r e-bost sy’n cynnwys enw’r aelod. Ym mhob achos, mae’n rhaid i archwiliwr gofnodi ar y dystiolaeth hon o enw’r aelod fod y bleidlais wedi cael ei chyfrif, neu os yw’r bleidlais wedi cael ei datgan yn annilys, y rheswm dros ddatganiad o’r fath.

(g) Mae’n rhaid i bleidleisiau a fwrir trwy’r post neu’r e-bost gael eu cyfrif gan bob un o’r archwilwyr cyn y cyfarfod lle mae’r bleidlais yn digwydd. Mae’n rhaid i’r archwilwyr ddarparu i’r sawl sy’n cadeirio’r cyfarfod gadarnhad ysgrifenedig o nifer y pleidleisiau dilys a dderbyniwyd trwy’r post a’r e-bost a nifer y pleidleisiau a dderbyniwyd oedd yn annilys.

(ng) Ni all yr archwilwyr ddatgelu canlyniad y bleidlais trwy’r post/e-bost tan ar ôl i’r pleidleisiau a gafodd eu bwrw â llaw neu drwy bleidleisio yn y cyfarfod, neu drwy bleidleisio ar ôl y cyfarfod, gael eu cyfrif. Dim ond ar yr adeg hon bydd yr archwiliwr yn cyhoeddi canlyniad y pleidleisiau dilys a dderbyniwyd, a bydd y pleidleisiau hyn yn cael eu cynnwys yn y datganiad o ganlyniad y bleidlais.

(h) Yn dilyn y datganiad terfynol o ganlyniad y bleidlais, mae’n rhaid i’r archwilwyr ddarparu i ymddiriedolwr elusen neu rywun awdurdodedig arall fwndeli sy’n cynnwys y dystiolaeth o’r aelodau a gyflwynodd bleidleisiau dilys trwy’r post; tystiolaeth o’r aelodau a gyflwynodd bleidleisiau dilys trwy’r e-bost, tystiolaeth o bleidleisiau annilys; y pleidleisiau dilys a’r

pleidleisiau annilys.

(i) Mae'n rhaid i unrhyw anghydfod ynghylch cynnal pleidlais trwy'r post neu'r e-bost gael ei gyfeirio i gychwyn at banel a sefydlwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen i gynnwys dau ymddiriedolwr a dau unigolyn sy'n annibynnol ar y SCE. Os nad oes modd datrys yr anghydfod yn foddhaol gan y panel, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

**Defnyddio cyfathrebu electronig**

(2) **I'r SCE**

Gall unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen y SCE gyfathrebu'n electronig â'r SCE i gyfeiriad a bennwyd gan y SCE at y diben hwnnw, ar yr amod bod y cyfathrebu wedi'i ddilysu mewn ffordd sy'n foddhaol i'r SCE.

(3) **Gan y SCE**

(a) Os yw unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen y SCE, drwy ddarparu i'r SCE ei gyfeiriad e-bost neu'r tebyg, cymerir ei fod wedi cytuno i dderbyn gohebiaeth gan y SCE ar ffurf electronig i'r cyfeiriad hwnnw, oni bai bod yr aelod wedi datgan i'r SCE ei amharodrwydd i dderbyn gohebiaeth o'r fath yn y ffurf honno.

(b) Gall yr ymddiriedolwyr elusen, yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, drwy gyfrwng cyhoeddi ar ei wefan:

(i) rhoi rhybudd i'r aelodau y cyfeirir ato yng nghymal 11(3) (Rhybudd o gyfarfodydd cyffredinol);

(ii) rhoi rhybudd i ymddiriedolwyr elusen o'u cyfarfodydd yn unol â chymal 19(1) (Galw cyfarfodydd); [a

(iii) cyflwyno unrhyw gynnig i'r aelodau neu i'r ymddiriedolwyr elusen am benderfyniad drwy gynnig ysgrifenedig neu bleidlais trwy'r post yn unol â phwerau'r SCE o dan gymal 10 (Penderfyniadau'r aelod), 10(3) (Penderfyniadau wedi'u gwneud drwy gynnig ysgrifenedig), neu [[y darpariaethau ar gyfer pleidleisio drwy'r post] (os ydych wedi cynnwys y ddarpariaeth ddewisol hon, rhowch y rhif cymal cywir yma)].

(c) Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen:

(i) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodau ac ymddiriedolwyr elusen yn cael eu hysbysu'n brydlon bod unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath wedi cael ei gyhoeddi;

(ii) anfon unrhyw rybudd neu gynnig o'r fath ar ffurf copi caled i unrhyw aelod neu ymddiriedolwr elusen sydd heb gydsynio i dderbyn gohebiaeth mewn ffurf electronig.

## Atodiad 2 – Nodiadau Arweiniol

Mae'r nodiadau esboniadol hyn ar gyfer cyngor ac i gyfeirio atynt yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o destun y cyfansoddiad.

### Dyddiad y cyfansoddiadau

Mae nodi dyddiad y cyfansoddiad yn arfer da, ac mae'n helpu i sicrhau bod yr un ddogfen gan bawb. Y dyddiad i'w nodi yma yw'r dyddiad y daeth y cyfansoddiad, neu unrhyw ddiwygiad iddo, i rym. Gadewch hwn heb ddyddiad nes bod y cyfansoddiad wedi'i gofrestru neu rhowch y dyddiad y daeth y gwelliant diwethaf i'r cyfansoddiad i rym.

### Cymal 1 - Enw

Mae'n rhaid i chi gynnwys enw'r SCE yn y cyfansoddiad. Yn gyffredinol, gall y Comisiwn dderbyn unrhyw enw elusen oni bai y byddai'n gamarweiniol, yn dramgwyddus neu'n rhy debyg i enw neu enw gwaith elusen sy'n bod (oni bai bod y SCE yn disodli'r elusen honno). Mae pwerau gan y Comisiwn i fynnu bod elusen yn newid ei henw os yw hyn yn digwydd. Mae gwybodaeth bellach am hyn wedi'i darparu yn ein cyhoeddiad *Cofrestru fel Elusen (CC21)* ac yn ein Canllaw Gweithredol *(OG18 - 'Enwau')*, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae cyfyngiadau cyfreithiol hefyd ar ddefnyddio'r un enw â chwmni sy'n bod (oni bai ei fod yn gwmni elusennol sy'n troi'n SCE) neu'n gyn-gwmni neu SCE sydd wedi mynd trwy ddiddymu methdaliadol - os ydych yn ansicr ceisiwch gyngor proffesiynol.

### Cymal 2 - Prif swyddfa

Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad ddatgan a yw prif swyddfa'r SCE yng Nghymru neu Loegr.

### Cymal 3 - Amcanion

Mae'n rhaid i'r SCE gael amcanion elusennol yn unig y mae'n rhaid i chi eu hamlinellu yn y cyfansoddiad. Mae'r canllawiau ar eiriad priodol ar gyfer amcanion ar gael ar ein gwefan. Yr elfennau allweddol i'w cynnwys yw:

- y diben neu'r dibenion y mae'r SCE yn cael ei sefydlu i'w gyflawni/cyflawni;
- y bobl a all gael budd; ac, os yw'n briodol;

- unrhyw derfynau daearyddol sy'n diffinio'r ardal o fudd. Os ydych yn cynnwys ardal o fudd, mae'n arferol i'w diffinio trwy gyfeirio at ardal llywodraeth leol: mae hyn yn cynnig y fantais o fod yn eglur ac yn syml, ond gall greu problemau os yw'r ardal yn cael ei newid neu ei diddymu yn y dyfodol. Os yw hyn yn digwydd, cysylltwch â'r Comisiwn am gyngor ar ddiwygio'r amcanion.

DS. Os nad oes lle i'ch amcanion yn y bwlch a ddarperir, rhowch nhw ar ddarn o bapur ar wahân a'i anfon gyda'r cyfansoddiad.

Os oes angen i'r SCE gael ei gydnabod fel elusen yn yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon, bydd angen i chi gynnwys y rhannau perthnasol o'r geiriad mewn cromfachau sgwâr i ateb gofynion y gyfraith elusennau yn y gwledydd hynny.

**Cymal 4 – Pwerau**

Mae Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011') yn rhoi pŵer i SCE wneud 'unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hyrwyddo ei ddibenion neu sy'n ffafriol neu'n atodol i wneud hynny'. Yn swyddogol, dyma'r unig bŵer y mae ei angen ar SCE. Fodd bynnag, gall fod o gymorth i ddatgan rhai pwerau yn benodol yn y cyfansoddiad hwn. Yn arbennig, gall pŵer penodedig i fenthyca [(1)] roi sicrwydd i ddarpar fenthycwyr. Am y rheswm hwn argymhellwn eich bod yn cynnwys y pwerau enghreifftiol a nodwyd yn y cyfansoddiad enghreifftiol (mae'r rhain yn cynnwys pwerau i brynu, gwerthu a phrydlesu eiddo, cyflogi staff a dirprwyo rheoli buddsoddiadau i reolwr cronfeydd proffesiynol). Gallwch ychwanegu pwerau datganedig eraill yma os hoffech chi.

Gallwch gynnwys darpariaeth gyfansoddiadol sy'n cyfyngu'r pŵer cyffredinol yn Neddf 2011. Rhaid i chi gynnwys cyfyngiad o'r fath dim ond os yw er lles y SCE. Ni allwch gyfyngu pwerau'r SCE mewn ffordd sy'n ei atal rhag gwaredu â'i eiddo. Nid yw cyfyngiadau ar y pwerau wedi'u darparu ar eu cyfer yn y cyfansoddiad enghreifftiol hwn ac argymhellwn eich bod yn ceisio cyngor priodol os ydych yn ystyried hyn.

**Cymal 5 - Defnyddio incwm ac eiddo**

Mae 5(1) yn adlewyrchu'r darpariaethau statudol yn Neddf 2011 ynghylch hawl ymddiriedolwyr elusen SCE i gael treuliau rhesymol ac y gallant gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwyr. Argymhellwn eich bod yn ei gynnwys yn y cyfansoddiad i hysbysu pobl sy'n ymwneud â'r elusen.

Mae 5(2) yn adlewyrchu gofynion y gyfraith elusennau bod rhaid i incwm ac eiddo SCE gael eu defnyddio i hyrwyddo ei amcanion yn unig ac nid i gynnig

budd i'r aelodau neu'r ymddiriedolwyr elusen (ac eithrio fel y caniateir gan y ddogfen lywodraethol (gweler cymal 6) neu bwer datganedig arall). Mae dyletswydd ar yr ymddiriedolwyr i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â'r egwyddor hon.

**Cymal 6 - Buddion a thaliadau i ymddiriedolwyr elusen ac unigolion cysylltiedig**

Gall ymddiriedolwyr elusen gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdod cyfreithiol datganedig ganddynt i wneud hynny (megis cymal yn y cyfansoddiad). Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys pobl sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr ('unigolion cysylltiedig' - mae'r term hwn wedi'i ddiffinio yn y cymal dehongli). Dylech gynnwys y cymal hwn fel bod ymddiriedolwyr elusen yn glir ynghylch y cyfyngiadau sy'n gymwys iddynt; ac oni bai eich bod yn ei gynnwys, bydd y darpariaethau statudol yn gymwys. Hyd yn oed os oes hawl gan ymddiriedolwyr gael budd o'r SCE, mae'n rhaid i hyn ddigwydd dim os yw'r budd er lles y SCE. Mae ein canllaw [Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11)] yn rhoi mwy o wybodaeth am fuddion ymddiriedolwyr.

Mae'r cymal enghreifftiol yn caniatáu i leiafrif o'r ymddiriedolwyr elusen neu unigolion cysylltiedig gael taliadau a buddion eraill mewn rhai achosion (megis ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflenwi i'r SCE), yn amodol ar y rheolaethau a nodwyd. Mae'r dewis hefyd yn caniatáu mathau eraill o fudd ymddiriedolwyr, yn amodol ar gydsyniad blaenorol y Comisiwn.

Gallwch gyfyngu'r buddion y bydd hawl gan ymddiriedolwyr elusen eu cael drwy newid y cymalau hyn, ond os oes angen i chi ddadwneud unrhyw gyfyngiadau yn ddiweddarach bydd angen cydsyniad y Comisiwn i wneud hyn. Nid oes rhaid i ymddiriedolwyr ddefnyddio'r pwerau hyn dim ond oherwydd eu bod ganddynt - awgrymwn y gallai fod yn haws i chi gadw'r geiriad enghreifftiol.

Nid yw unrhyw un o'r dewisiadau hyn yn caniatáu ymddiriedolwyr dderbyn tâl am weithredu fel ymddiriedolwr.

(2)(a) Os bydd pob un o'r ymddiriedolwyr yn cael budd o weithgareddau'r SCE (er enghraifft, drwy ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i holl drigolion yr ardal, megis canolfan gymunedol), efallai yr hoffech ddefnyddio'r geiriad canlynol yn ei le: "Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gael budd o'r SCE fel buddiolwr ar yr amod ei fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr y SCE".

(2)(ch) - Dylai'r SCE gofnodi swm a thelerau benthyciad yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig.

**Cymal 7 - Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch**

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn darparu na all ymddiriedolwr elusen SCE gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad y byddai'n cael budd personol uniongyrchol neu anuniongyrchol drwyddo, oni bai nad yw'n rhesymol i ystyried bod gwrthdaro buddiannau ganddynt. Mae'r cymal hwn yn atgoffa'r ymddiriedolwyr o'r gofyniad hwn ac mae hefyd yn adlewyrchu arfer da ehangach ar reoli gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch. Argymhellwn eich bod yn ei gynnwys.

**Cymal 8 - Atebolrwydd aelodau**

Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad ddatgan a oes gan aelodau'r SCE naill ai:

(a) dim atebolrwydd i gyfrannu at asedau'r SCE os caiff ei ddirwyn i ben [dewis 1]

*neu:*

(b) byddant yn atebol i gyfrannu hyd at uchafswm yr un os na all y SCE fodloni ei rwymedigaethau ariannol pan gaiff ei ddirwyn i ben [dewis 2].

Dewiswch un ohonynt a dilëwch y llall. Nid oes unrhyw ddewis gwell neu ofyniad yn y fframwaith cyfreithiol i aelodau fod yn atebol i gyfrannu unrhyw beth.

Os ydych yn penderfynu ar ddewis 2, mae'n rhaid i chi nodi'r uchafswm (swm nominal fel rheol megis £1 neu £10) y bydd aelodau yn atebol yn unigol i'w dalu.

**Cymal 9 - Aelodaeth o'r SCE**

Mae'n rhaid i SCE gael un neu ragor o aelodau. Os bydd pob un o aelodau â phleidlais y SCE yn ymddiriedolwyr hefyd ac ni fydd unrhyw aelodau â phleidlais eraill, dylech ddefnyddio'r Cyfansoddiad Enghreifftiol Sylfaen.

(1)(a) a (b) Mae'n rhaid i chi ddatgan yn y cyfansoddiad pwy sy'n gymwys i fod yn aelod a sut y gall rhywun fod yn aelod.

Mae modd cynnwys darpariaethau aelodaeth mwy cyfyngol (er enghraifft gofyn i aelodau gael eu 'cymeradwyo' gan yr ymddiriedolwyr elusen); yn yr achos hwnnw bydd angen newid y darpariaethau gwrthod aelodaeth hefyd (cymal

9(1) (b)(iii)). Ni ellir cyfyngu ar aelodaeth yn afresymol os yw'r aelodau hefyd yn fuddiolwyr y SCE oherwydd byddai hynny'n effeithio ar fudd cyhoeddus.

(1)(a) Fel rheol, mae aelodau elusen yn unigolion, ond gall cyrff corfforaethol (e.e. cwmnïau) fod yn aelodau hefyd. Mewn rhai achosion, bydd elusennau'n dweud bod cyrff anghorfforedig ganddynt hefyd (e.e. cymdeithasau lleol sy'n rhan o ffederasiwn cenedlaethol) fel aelodau. Mae arbenigwyr cyfreithiol yn anghytuno ynghylch hyn, ond mae elusennau wedi gofyn i ni beidio ag atal hyn yn rhagosodedig. Os bydd aelodau anghorfforedig gan SCE, dylent naill ai gael eu cynrychioli gan rywun y maent yn ei enwebu (cadwch y geiriau mewn cromfachau sgwâr) neu weithredu fel aelodau eu hunain (dilëwch y geiriau mewn cromfachau sgwâr). Bydd rhaid i'r SCE wneud rheolau i lywodraethu sut y mae unrhyw aelodau anghorfforedig yn arfer eu hawliau a'u dyletswyddau fel aelodau, er enghraifft, mynychu cyfarfodydd a phleidleisio, neu fodloni unrhyw atebolrwydd i gyfrannu arian os yw'r SCE yn dirwyn i ben.

(2) Argymhellwn eich bod yn cynnwys y ddarpariaeth hon, fel arall gallai cofnodion aelodaeth yr elusen fod yn anhylaw a byddai'r elusen yn colli rheolaeth dros aelodaeth. Dylech gynnwys y geiriau mewn cromfachau sgwâr os yw'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau anghorfforedig (gweler cymal 9(1)(a)); fel arall dylech eu dileu.

(3) Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol ar bob aelod o'r SCE fel y nodir yn Neddf Elusennau 2011. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'w amlinellu yn y cyfansoddiad. Ni all y cyfansoddiad newid dyletswydd gyfreithiol yr aelodau.

(4) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan bod rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys darpariaeth ar gyfer aelodau sy'n ymddeol a therfynu aelodaeth. Mae'r awgrymiadau yma yn seiliedig ar brofiad ac arfer da.

(5) Mae disgresiwn gan elusennau i osod a chodi tâl aelodaeth, ond gall fod yn ddoeth i ddatgan hyn yn y cyfansoddiad er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.

Dosbarthiadau o aelodaeth - Bydd gan rai elusennau gategorïau neu ddosbarthiadau gwahanol o aelodau sydd â hawliau pleidleisio gwahanol. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan, os yw hyn yn gymwys i'r SCE, mae'n rhaid i'r categorïau gwahanol o aelodau a'u hawliau pleidleisio gael eu hamlinellu yn y cyfansoddiad. Ni allwn ddarparu cymal enghreifftiol ar gyfer hyn oherwydd bydd rhaid ei ddrafftio i adlewyrchu amgylchiadau arbennig y SCE. Mae'n bosib y bydd angen cyngor proffesiynol arnoch ynghylch y geiriad addas.

Ni chynghorwn SCEau i gael dosbarthiadau gwahanol o aelodaeth, ond caniateir hyn pan fydd yr ymddiriedolwyr yn teimlo ei fod er lles y SCE.

(6) Pŵer i greu aelodaeth anffurfiol neu gyswllt - Cynghorwn SCEau i gynnwys y pŵer hwn os oes ganddynt neu efallai y byddant yn ystyried cael aelodaeth anffurfiol (gyswllt). Nid yw aelodaeth o'r fath yn cyfrif fel aelodaeth at ddibenion cyfreithiol, er enghraifft o ran hawliau pleidleisio, rhwymedigaethau cyfreithiol i weithredu er lles yr elusen neu unrhyw atebolrwydd i gyfrannu at asedau'r SCE adeg diddymu.

Ni ddylai manylion unrhyw aelodau anffurfiol gael eu cynnwys yn y Gofrestr Uno Elusennau.

**Cymal 10 - Penderfyniadau'r aelodau**

Mae'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu darpariaethau yn y Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu gwneud penderfyniadau gan aelodau. Argymhellwn eu bod yn cael eu cynnwys yn y cyfansoddiad er eglurder.

(2) Mae'r cymal hwn yn disgrifio'r mecanweithiau arferol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd cyffredinol. Argymhellwn ei fod yn cael ei gynnwys yn y cyfansoddiad i leihau'r posibilrwydd o anghytuno ymysg aelodau ynghylch gwneud penderfyniadau.

(3) Mae'r pŵer hwn (i wneud penderfyniadau heblaw drwy gynnig yng nghyfarfod cyffredinol) yn ddewisol, ond os yw'r SCE yn bwriadu ei ddefnyddio, mae'n rhaid ei gynnwys yn y cyfansoddiad.

(4) Mae'r cymal hwn yn nodi pryd y mae darpariaethau arbennig yn gymwys i benderfyniad, ac argymhellwn eich bod yn ei gynnwys. Dylech gynnwys (a) dim ond os ydych yn cynnwys y pŵer dewisol cyfatebol i ddileu'r ymddiriedolwyr elusen.

Gall SCE gynnwys cyfyngiadau pellach yn ei gyfansoddiad sy'n rheoli sut y mae'n rhaid i benderfyniadau arbennig gael eu cymryd (gelwir hyn yn 'ddarpariaeth i sefydlu'). Dylai SCEau sy'n ystyried hyn geisio cyngor proffesiynol.

**Cymal 11 - Cyfarfodydd Cyffredinol o aelodau**

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan bod rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys darpariaethau ynghylch cynnal a galw cyfarfodydd cyffredinol, gan gynnwys: y drefn yng nghyfarfodydd cyffredinol; penodi Cadeirydd; y nifer lleiaf o aelodau

sy'n gallu ffurfio cworwm; a all yr aelodau fynnu bod pleidlais yn cael ei chynnal; a'r drefn ar gyfer cynnal pleidlais. Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, argymhellwn yn gryf bod SCEau sydd ag aelodaeth bleidleisio ehangach yn cynnwys darpariaethau ar hyd y llinellau hyn ac nid ydynt yn cynnwys darpariaethau sy'n eu caniatáu i ddewis peidio â chynnal cyfarfodydd cyffredinol gan gynnwys cyfarfod cyffredinol blynyddol. Mae'n rhaid i rai penderfyniadau (megis newidiadau i'r cyfansoddiad) gael eu gwneud gan yr aelodau yn hytrach na'r ymddiriedolwyr, a chyfarfodydd cyffredinol yw'r ffordd arferol y mae elusennau sy'n seiliedig ar aelodaeth yn gwneud penderfyniadau o'r fath. Mae cyfarfodydd aelodau hefyd yn ddull pwysig o gyfathrebu ag aelodau a bod yn atebol iddynt.

Ac eithrio lle y nodir eu bod yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddio, mae'r darpariaethau yn y cymal hwn yn enghreifftiau sy'n seiliedig ar arfer da a argymhellir.

(5)(b) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn mynnu bod rhaid i'r Cyfansoddiad bennu cworwm. Awgrymwn y dylai'r cworwm fod yn 5% (neu dri) o'r aelodau. Gallwch ddewis ffigur gwahanol. Os yw wedi'i osod yn rhy uchel, gall unrhyw absenoldeb ei gwneud hi'n anodd i gynnal cyfarfod dilys; os yw'n rhy isel, gall lleiafrif bach osod eu barn mewn ffordd afresymol

(5)(ch) Nid yw'r cyfansoddiad enghreifftiol yn gofyn am ailadrodd rhybudd ffurfiol ar gyfer cyfarfod a ohiriwyd, ond gellir gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y cyfansoddiad drwy ddileu'r geiriad yn y cromfachau sgwâr. (Gall hyn helpu i sicrhau bod presenoldeb gwell yn y cyfarfod a ohiriwyd.)

(6)(b)-(ch) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn mynnu, os oes gan aelodau'r hawl i fynnu pleidlais, mae'n rhaid amlinellu hyn yn y cyfansoddiad, gan gynnwys darpariaethau sy'n rheoli'r ffordd y caiff ei gynnal. Mae'r darpariaethau a awgrymir yma yn adlewyrchu arfer da.

Pleidleisio drwy ddirprwy - Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan y gall aelodau bleidleisio drwy ddirprwy dim ond os oes darpariaeth benodol yn y cyfansoddiad sy'n rhaid amlinellu:

(a) sut y mae aelod yn penodi dirprwy;

(b) hawliau'r dirprwy; a

(c) sut y caiff y penodiad ei derfynu.

Ar gyfer geiriad a argymhellir (nad yw'n ffurfio rhan o'r cyfansoddiad enghreifftiol), gweler yr Atodiad i'r cyfansoddiad hwn.

Pleidleisio trwy'r post - Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan y gall aelodau ddefnyddio pleidleisiau drwy'r post dim ond os oes darpariaeth benodol yn y cyfansoddiad, y mae'n rhaid gwneud darpariaeth am yr amgylchiadau pryd y gellir rhoi pleidleisiau o'r fath, ac ym mha ffordd.

Ar gyfer geiriad a argymhellir (nad yw'n ffurfio rhan o'r cyfansoddiad enghreifftiol), gweler yr Atodiad i'r cyfansoddiad hwn.

(7) Os bydd aelodau corfforaethol gan y SCE, mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn mynnu bod rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys darpariaeth sy'n esbonio sut y cânt eu cynrychioli mewn cyfarfodydd cyffredinol.

Os bydd aelodau anghorfforedig gan y SCE (gweler cymal 9 - Aelodaeth o'r SCE) dylech gynnwys cyfeiriadau at sefydliadau yn y cymal hwn. Fel arall dylech ddileu'r geiriau yn y cromfachau sgwâr.

Mae cyfeiriadau at gyfnodau rhybudd tybiedig yn ddarostyngedig i Reoliad 53 o'r Rheoliadau Cyffredinol ac felly nid ydynt yn cynnwys dydd Sadwrn a dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith ac unrhyw wyliau banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 yng Nghymru a Lloegr.

**Cymal 12 - Ymddiriedolwyr elusen**

(1) Mae'r cymal hwn yn esbonio swyddogaeth gyfreithiol ymddiriedolwyr elusen, dyletswydd gyfreithiol i weithredu mewn ewyllys da, a'r ddyletswydd gofal statudol. Argymhellwn y dylai'r rhain gael eu hamlinellu yn y cyfansoddiad. Ni all yr ymddiriedolwyr fabwysiadu dyletswydd gofal is.

(2) Dylech gynnwys darpariaethau sy'n amlinellu pwy sy'n gymwys i fod yn ymddiriedolwr elusen y SCE.

Mae is-gymal (a) yn gofyn i bob ymddiriedolwr fod yn unigolion. Caniateir yn ôl y gyfraith i gorff corfforaethol fod yn ymddiriedolwr elusen, ond byddem yn cynghori yn erbyn cael corff ymddiriedolwyr sy'n cynnwys unigolion ac un neu ragor o gyrff corfforaethol. Os bydd gan y SCE aelodau corfforaethol argymhellwn na ddylid eu hethol fel ymddiriedolwyr; dim ond unigolion neu enwebeion y cyrff hyn ddylai fod yn gymwys i'w hethol.

Mae'r cymal hwn a'r rhai sy'n dilyn wedi'u drafftio ar y sail y caiff y SCE ei lywodraethu gan gorff ymddiriedolwyr sydd wedi'i ffurfio o nifer o unigolion. Os oes rheswm da pam y caiff y SCE ei weinyddu gan ymddiriedolwyr unigol (e.e.

corfforaeth) neu gael unrhyw drefniadau ymddiriedolaeth arall, bydd rhaid i chi newid cymalau 12-16, a dylech geisio eich cyngor proffesiynol eich hun.

Mae'r darpariaethau a awgrymir yn (b) yn adlewyrchu'r gyfraith ac mae (c) yn seiliedig ar arfer da. Mae troseddau o dan y Rheoliadau Cyffredinol sy'n ymwneud ag unigolion sydd wedi'u hanghymhwyso o dan y gyfraith rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr.

Os oes amodau ychwanegol ar gyfer cymhwyster ymddiriedolwyr (y tu hwnt i'r cyfyngiadau cyfreithiol), mae'n rhaid datgan y rhain yn y cyfansoddiad. Er enghraifft, bydd rhai elusennau'n ychwanegu gofynion i sicrhau bod gwybodaeth neu brofiad arbennig gan ymddiriedolwyr (e.e. o'r ardal leol lle mae'r SCE yn gweithredu neu am faterion sy'n berthnasol i'r bobl y mae'r SCE yn eu gwasanaethu).

(2)(ch) Mae'n cynnwys cyfyngiad dewisol ar gyfran yr ymddiriedolwyr elusen sydd o dan 18 oed. Mae'r Comisiwn yn annog elusennau i gynnwys pobl ifanc yn eu dulliau llywodraethu ym mha bynnag ffordd sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond mae'n cynghori yn erbyn cael bwrdd sydd wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o bobl o dan 18 oed. Ni all ymddiriedolwyr SCE fod o dan 16 oed.

(3) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan bod rhaid i'r cyfansoddiad nodi'r nifer lleiaf o ymddiriedolwyr elusen, os oes mwy nag un.

Argymhellwn eich bod yn gosod ac yn cynnwys y nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o ymddiriedolwyr elusen.

Gall SCE gael nifer penodol o ymddiriedolwyr neu ystod o rhwng uchafswm ac isafswm (a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r SCE). Mae dewis 1a yn darparu ar gyfer uchafswm penodol. Mae dewis 1b yn darparu ar gyfer dim terfyn uchaf. Mae dewis 2 yn darparu ar gyfer trefniadau penodi ymddiriedolwyr eraill yn unol â chymal 13 (gweler isod).

Dewiswch:

- Gymal 12(3) Dewis 1 (a Dewis 1a neu b) a Chymal 13 Dewis 1

neu

- Gymal 12(3) Dewis 2 a Chymal 13 Dewis 2 (gan ddewis y rhannau perthnasol o bob adran).

Dilëwch y dewisiadau nad ydych wedi'u dewis.

Er mwyn arfer da, dylai fod o leiaf dri ymddiriedolwr elusen gan SCE. Os yw nifer yr ymddiriedolwyr yn is na'r isafswm a bennir yn y cyfansoddiad, bydd y darpariaethau yng nghymal 12(3) yn golygu bod modd i'r ymddiriedolwyr elusen sy'n weddill benodi ymddiriedolwyr newydd ac atal y SCE rhag methu â gweithredu.

Dylai fod digon o ymddiriedolwyr elusen gan SCE i allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol, ond nid gormod fel ei bod yn anymarferol i gynnal cyfarfodydd ymddiriedolwyr effeithiol lle y gall pawb gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Awgrymwn uchafswm o 12 o ymddiriedolwyr, ond gallwch ddewis nifer fwy neu lai yn dibynnu ar anghenion y SCE.

(4) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan bod rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys enwau'r ymddiriedolwyr elusen cyntaf.

**Cymal 13 - Penodi ymddiriedolwyr elusen**

Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad wneud darpariaeth ynghylch penodi un neu ragor o bobl i fod yn ymddiriedolwyr elusen.

Mae'r cymal hwn yn cynnwys dau ddewis. Dewiswch y dewisiadau cyfatebol yng Nghymal 12(3) a Chymal 13

Mae Dewis 1 yn darparu ar gyfer penodi ymddiriedolwyr newydd gan yr aelodaeth ('etholedig') ac ymddeol yn eu tro. Dyma'r drefn symlaf a'r un arferol ar gyfer y rhan fwyaf o SCEau cyswllt.

Mae'r dull ar gyfer ethol ac ymddeol yn y cymal hwn yn adlewyrchu arfer da. Efallai yr hoffech gynnwys darpariaeth i'r holl ymddiriedolwyr ymddeol yn y CCB cyntaf [(1)] ond nid yw hynny'n hanfodol.

Mae (5) yn caniatáu i ymddiriedolwyr elusen presennol neu'r aelodau benodi ymddiriedolwyr ychwanegol i lenwi swyddi gwag dros dro neu gynnig sgiliau a phrofiad ychwanegol i'r bwrdd ymddiriedolwyr. Argymhellwn eich bod yn cynnwys y pŵer hwn.

Mae Dewis 2 yn darparu ar gyfer penodi ymddiriedolwyr newydd mewn ffyrdd gwahanol gan gynnwys cael eu hethol gan aelodau, ex officio (h.y. drwy rinwedd dal swydd arbennig, e.e. y ficer lleol) a'u henwebu gan sefydliad arall. Os ydych yn defnyddio dewis 2 bydd rhaid i chi ei ddiwygio i fodloni amgylchiadau arbennig y SCE yn dibynnu ar y cyfuniad o ddulliau gwahanol o benodi a fydd yn gymwys. Fel arfer bydd y dulliau penodi ychwanegol hyn yn briodol i elusennau sy'n gweithredu mewn ardaloedd lleol arbennig yn unig neu

sydd â chysylltiadau â chyrff arbennig, a lle y mae'n ddymunol i gynnwys aelodau o gynghorau lleol, eglwysi lleol neu sefydliadau allanol eraill ar y bwrdd ymddiriedolwyr.

Efallai yr hoffech gynnwys darpariaeth ar gyfer pob ymddiriedolwr etholedig I ymddeol yn y CCB cyntaf [(1)(a)] ond nid yw hynny'n hanfodol.

Mae (1)(d) yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr elusen presennol neu'r aelodau benodi ymddiriedolwyr ychwanegol i lenwi swyddi gwag dros dro neu gynnig sgiliau neu brofiad ychwanegol i'r bwrdd ymddiriedolwyr. Argymhellwn eich bod yn cynnwys y pŵer hwn.

## Cymal 14 - Gwybodaeth i ymddiriedolwyr elusen newydd

Mae'r cymal hwn yn cynrychioli arfer da; argymhellwn eich bod yn ei gynnwys. Mae'n hollbwysig i ymddiriedolwyr newydd gael mynediad hawdd at yr wybodaeth a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt i fod yn aelodau effeithiol o'r corff ymddiriedolwyr.

## Cymal 15 - Ymddeol a diswyddo ymddiriedolwyr elusen

(1) Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn mynnu bod rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys darpariaethau sy'n amlinellu sut y gall ymddiriedolwyr elusen ymddeol neu beidio â dal swydd fel arall. Mae'r darpariaethau yn y cyfansoddiad enghreifftiol yn dilyn yr arfer da a argymhellir.

(2) a (3) Pŵer dewisol yw hwn sy'n caniatáu i'r aelodau ddiswyddo ymddiriedolwr elusen. Gall yr aelodau ddiswyddo ymddiriedolwyr os yw pŵer i wneud hynny wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad. Dylai'r pŵer hwn gael ei arfer dim ond er lles yr elusen, ac mae'n bwysig bod y broses yn deg ac yn dryloyw (fel y darperir ar ei gyfer yn (3)).

## Cymal 16 - Ailbenodi ymddiriedolwyr elusen

Bydd y cymal hwn yn helpu i sicrhau eglurder ynghylch ailbenodi ymddiriedolwyr sydd wedi ymddeol. Argymhellwn eich bod yn ei gynnwys. Mae darpariaeth ddewisol i gyfyngu nifer y cyfnodau olynol y gall ymddiriedolwr wasanaethu ar eu cyfer a all helpu i annog newid rheolaidd ar y bwrdd ymddiriedolwyr. (Mae'n arfer da i anelu at gydbwysedd rhwng parhad a newid.)

## Cymal 17 - Ymddiriedolwyr elusen yn gwneud penderfyniadau

Mae'r pŵer i wneud penderfyniadau drwy gynnig ysgrifenedig neu ddull electronig y tu allan i gyfarfodydd yn ddewisol, ond os yw'r ymddiriedolwyr yn bwriadu ei ddefnyddio, mae'n rhaid ei gynnwys yn y cyfansoddiad. Mae'r is-gymal hwn yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer penderfyniadau ysgrifenedig.

**Cymal 18 - Dirprwyo gan ymddiriedolwyr elusen**

Mae'r pŵer hwn yn ddewisol. Argymhellwn eich bod yn ei gynnwys fel mater o arfer da. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn rhoi pŵer awtomatig i'r SCE ddirprwyo tasgau i is- bwyllgorau, staff neu asiantau; ond heb y pŵer cyfansoddiadol ychwanegol hwn, ni fydd yr ymddiriedolwyr yn gallu dirprwyo unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau.

Mae is-gymalau (2)(a)-(c) yn adlewyrchu'r arfer da lleiaf ac yn fesurau diogelu na ddylid eu dileu neu eu lleihau.

**Cymal 19 - Cyfarfodydd ymddiriedolwyr elusen**

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn mynnu bod rhaid i'r Cyfansoddiad gynnwys darpariaethau ar gyfer galw a rhedeg cyfarfodydd gan gynnwys y nifer lleiaf o ymddiriedolwyr a fydd yn ffurfio cworwm, penodi cadeirydd, ac a fydd yr ymddiriedolwyr yn gallu galw pleidlais (pleidlais a gyfrifir, fel rheol gyda phapurau pleidleisio), y drefn ar gyfer cynnal pleidlais o'r fath. Mae'r darpariaethau yn y cyfansoddiad enghreifftiol hwn yn argymhellion arfer da.

(Nid ydym wedi cynnwys darpariaeth i ymddiriedolwyr gael pleidlais oherwydd mae adborth o'n hymgynghoriadau yn awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o elusennau'n teimlo bod hynny'n briodol. Os oes angen y pŵer hwn, gweler cymal 11(6)(b-d) am eiriad addas)

(3)(a) Argymhellwn na ddylai'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd ymddiriedolwyr fod yn llai nag un rhan o dair o nifer yr ymddiriedolwyr.

(3)(c) Mae'n gyffredin, ond nid yn ofynnol, i'r Cadeirydd gael pleidlais bwrw. Gallwch gynnwys neu ddileu'r pŵer hwn.

(4) - Mae'r cymal hwn argymhellir yn gryf ond bydd yn ofynnol os yw un neu ragor o ymddiriedolwyr y SCE yn cymryd rhan o bryd i'w gilydd mewn cyfarfodydd dros y ffôn neu drwy ddull tebyg.

**Cymal 20 - Darpariaethau arbed**

Argymhellwn eich bod yn cynnwys y cymal hwn i leihau'r risg o benderfyniadau'r ymddiriedolwyr yn cael eu datgan yn annilys am resymau

technegol yn unig.

**Cymal 21 - Cyflawni dogfennau**

Argymhellwn eich bod yn cynnwys y cymal hwn i egluro sut y gall dogfennau gael eu cyflawni'n ddilys ar ran y SCE. Mae'n cynnwys darpariaeth i ddefnyddio sêl, y mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan y mae'n rhaid ei gynnwys os yw'r SCE yn cael sêl (ond nid oes unrhyw ofyniad i gael un). Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn gofyn i enw llawn yr SCE gael ei ysgrifennu'n glir ar y sêl, ac mae methu â chydymffurfio â hyn yn drosedd.

**Cymal 22 - Defnyddio cyfathrebu electronig**

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn cynnwys darpariaethau sy'n rheoli'r defnydd o gyfathrebu electronig, ac argymhellwn fod ymddiriedolwyr SCE yn ymgyfarwyddo â'r gofynion. Byddai methu â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu copi caled yn cael ei ystyried yn drosedd.

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn datgan os yw'r SCE yn bwriadu defnyddio cyfathrebu electronig yn awtomatig neu wefan i anfon gohebiaeth ffurfiol at aelodau, mae'n rhaid datgan hyn yn y cyfansoddiad, ac mae'n rhaid amlinellau'r amgylchiadau pan fydd hyn yn digwydd. Am eiriad posibl, gweler Atodiad 1 i'r cyfansoddiad hwn.

**Cymal 23 - Cadw cofrestri**

Mae'r cymal hwn yn adlewyrchu'r gofynion yn y Rheoliadau Cyffredinol bod y SCE yn cadw cofrestri o aelodau ac ymddiriedolwyr elusen a bod yr wybodaeth hon ar gael i bobl â diddordeb eu harchwilio. Nid oes rhaid datgan hwn yn y cyfansoddiad ond mae wedi'i gynnwys i'ch atgoffa.

**Cymal 24 - Cofnodion**

Mae'r cymal hwn yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Cyffredinol ynghylch cadw cofnodion. Argymhellwn fod y cymal hwn yn cael ei gynnwys i atgoffa ymddiriedolwyr am eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, dim ond os yw'r cyfansoddiad yn cynnwys darpariaethau eraill ar benodi swyddogion y dylid cadw cymal 24(1).

**Cymal 25 - Cofnodion cyfrifyddu (ac ati)**

Mae'r cymal hwn yn adlewyrchu dyletswyddau ymddiriedolwyr o dan y Ddeddf Elusennau 2011. Argymhellwn fod y cymal hwn yn cael ei gynnwys i atgoffa ymddiriedolwyr am eu cyfrifoldebau.

**Cymal 26 - Rheolau**

Argymhellwn y dylai'r pŵer hwn gael ei gynnwys er eglurder, ond mae'r pŵer hwn gan elusennau yn awtomatig ac nid oes angen pŵer datganedig. Mae'n bwysig bod aelodau yn ymwybodol o gopïau o unrhyw reolau a'u bod ar gael iddynt.

**Cymal 27 - Anghydfodau**

Mae'n arfer da i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio ag unrhyw anghydfodau sy'n codi rhwng aelodau'r SCE. Gall cyfreitha fod yn ddrud, a byddai cyfreitha am faterion mewnol elusen bron yn sicr o gael ei ystyried yn "drafodion elusen", y gellir eu cymryd dim ond gydag awdurdod y Comisiwn. Fel arfer byddem yn gofyn i'r partïon mewn anghydfod geisio cyfryngu yn gyntaf.

**Cymal 28 - Diwygio'r cyfansoddiad**

Cyn i gam 3 ddod i rym, mae hyn yn adlewyrchu pwer statudol y SCE i ddiwygio yn adrannau 224-227 o Ddeddf Elusennau 2011. Dylai cyfansoddiad SCE gynnwys y darpariaethau hyn er hwylustod. Ni all cyfansoddiad SCE fod yn drech na'r pŵer statudol diwygio cyfansoddiadol, ond mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn darparu y gallwch gynnwys cyfyngiadau ychwanegol mewn rhai neu bob achos, er enghraifft, gofyn am gyfnod hwy o rybudd cyn y cyfarfod neu fwyafrif uwch, ar gyfer newidiadau arbennig. Nid yw cyfyngiadau ychwanegol wedi'u darparu ar eu cyfer yn y cyfansoddiad enghreifftiol hwn ac os ydych yn ystyried hyn, argymhellwn eich bod yn ceisio cyngor priodol. I ofyn am gydsyniad y Comisiwn i ddiwygio neu hysbysu'r Comisiwn am ddiwygiad, cwblhewch ein ffurflen ar-lein,

Ar ôl i gam 3 Deddf Elusennau 2022 ddod i rym, nid yw newid rheoleiddiedig o amcanion SCE o dan a.226 a 227 o Ddeddf Elusennau 2011 yn doi rym nes ei fod wedi'i gofrestru neu'n hwyrach os yw'r penderfyniad sy'n cynnwys y diwygiad yn pennu hyn Mae unrhyw ddiwygiad arall i gyfansoddiad y SCE yn dod i rym ar y dyddiad y caiff y penderfyniad sy'n cynnwys y gwelliant ei basio neu ddyddiad diweddarach os yw'r penderfyniad sy'n cynnwys y penderfyniad sy'n cynnwys y diwygiad yn nodi hyn.

**Cymal 29 - Dirwyn i ben neu ddiddymu gwirfoddol**

Mae'r cymal hwn yn adlewyrchu darpariaethau Deddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau Cyffredinol a'r Rheoliadau Diddymu. Argymhellwn ei fod wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad er hwylustod. Mae hefyd yn pwysleisio bod gofynion eraill yn y Rheoliadau Diddymu y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â

nhw, oherwydd ceir troseddau am beidio â chydymffurfio. I roi gwybod i'r Comisiwn am ddiddymiad eich SCE, cwblhewch ein ffurflen ar-lein.

(2) Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch sut y caiff ei eiddo ei ddefnyddio os yw'n cael ei ddirwyn i ben. Mae'n rhaid i unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl talu dyledion gael eu defnyddio ar gyfer ddibenion elusennol sy'n debyg i rai'r SCE.

(4) Mae'n hanfodol i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol os nad yw SCE yn gallu bodloni ei rwymedigaethau ariannol yn llawn pan gaiff ei ddirwyn i ben, nid yw'r darpariaethau yn is-gymalau (1)-(3) yn gymwys, ac mae'n rhaid i ddarpariaethau perthnasol y Rheoliadau Diddymu gael eu dilyn. Mae methu â gwneud hynny yn drosedd a gallai arwain at atebolrwydd personol i'r ymddiriedolwyr hefyd.

**Cymal 30 - Dehongli**

Mae'r cymal hwn yn esbonio rhai termau a ddefnyddir yng ngweddill y cyfansoddiad.